Tudalen 4
BETHEL

Tudalen 5
CWN DEFAID NANT

Tudalen 11
EISTEDDFOD

Rhif: 406
Nadolig 2012-Ionawr 2013
Pris: 50c

ECO'r Wyddfa

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda I'n holl ddarllenwyr

Medal Arian Cymdeithas Ffotograffeg Prydain

Llongyfarchiadau i Andy Teasdale o Lanberis, aelod o Glwb Camera Caernarfon, am dderbyn medal arian y gymdeithas. Cyflwynwyd y fedal iddo gan Don Langford, Llywydd y Gymdeithas.

Testun llun Andy oedd 'Hofrennydd Achub', ac fe'i hanfonwyd i gystadleuaeth ryngwladol yn ddiweddar. Dyma'r tro cyntaf i ffotograffydd o ogledd Cymru ennill gwobr o'r fath.

Gwobrau Nyrs y Flwyddyn

Sali Burns o'r Waunfawr a ddaeth yn ail yng nghategori nyrsio iechyd meddwl yng ngwobrau Nyrs y Flwyddyn Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru am eleni. Dyma'r tro cyntaf i ranbarth Cymru o'r Coleg Nyrsio Brenhinol gynnal gwobrau o'r fath. Mwy o'r hanes ar dudalen 22

Eco Dolig 2012.indd 1 18/12/2012 09:42

ECO'r Wyddfa

RHIF 406
NADOLIG/IONAWR
2012/13
Argraffwyd gan
Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Straeon ac erthyglau
ar e-bost i
Dafydd Whiteside Thomas
Bron y Nant, Llanrug
01286 673515
ecorwyddfa@gmail.com

CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWAITH
Geraint Elis

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. (01248) 670115

FFOTOGRAFFWR
Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug (01286) 677263 glasgoed@hotmail.com

TREFNYDD HYSBYSEBION
Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt, Llanberis (870740)
eifionroberts132@btinternet.com

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (01286) 674839

TREFNYDD BWNDELU
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL: Geraint Elis. Cilgeran (01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts¬ Williams. Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Rhiannon Roberts, Cefn Rhos Isaf, Penrhos. rhiannonmai@btinternet.com

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen. Bodafon. Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands. Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones. Minallt. 7 Bro Elidir. Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts. Swn-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts. 3 Bryn Moelyn (675384)

NANT PERIS: Kate Pritchard (872331) neu econantperis@hotmail.com

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans. Sycharth (872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry. Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts. Pantafon. Waunfawr (650570)

gosodwyd gan
grid 76
dylunio graffeg
07766956673

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO 2012

Rhifyn	Copi i law	Plygu	Ble
Chwefror	Ionawr 20fed	Ionawr 30ain	Waunfawr
Mawrth	Chwefror 17eg	Chwefror 28ain	Llanrug
Ebrill	Mawrth 17eg	Mawrth 28ain	Cwm y Glo

Gair gan y Golygydd.

Cynllun Trydan-Dwr Glyn Rhonwy.

Fel y gwelwch yn y rhifyn hwn, mae trigolion Waunfawr eisoes wedi cael cyfarfodydd i drafod oblygiadau'r cynllun arfaethedig i ddefnyddio Chwarel Fawr Cefn Du a thyllau Chwarel Glynrhonwy i gynhyrchu trydan ar yr un egwyddor â Marchlyn/Peris o dan Chwarel Dinorwig.

Mae unrhyw ddatblygiad diwydiannol gan Ddyn yn golygu newid yn y dirwedd, ac nid yw'r cynllun hwn yn ddim gwahanol yn hynny o beth. Ond unwaith y bydd y gwaith dechreuol wedi ei gwblhau, honna'r datblygwyr, Quarry Battery, mai prin iawn fydd effaith y gwaith ar dirwedd yr ardal am y ganrif a chwarter y bydd trydan yn cael ei gynhyrchu yno.

Naturiol yw i drigolion ardal Groeslon y Waun bryderu am effeithiau trafnidiaeth drom ar y ffordd gul sy'n arwain i'r mynydd. Yn yr un modd, mae gan y Gymdeithas Bysgota leol eu pryderon am effaith tywallt dwr cynnes i waelodion Llyn Padarn a chynefin y torgoch prin. Mae unigolion a chymdeithasau eraill wedi mynegi pryderon amrywiol, ond mae yna hefyd lawer o gefnogaeth i ddatblygiad 'gwyrdd' na fydd yn debygol o achosi llygredd i'r amgylchedd, tra ar yr un pryd yn cynnig cyflogaeth leol, a hynny am flynyddoedd i ddod.

RHODDION

£20: Myrddyn ag Annie Pritchard, 1 Stryd Padarn, Llanberis; Er cof am Pat Williams a Mrs M.E. Pritchard gan A. Hughes a'r teulu; Mrs Annie Owens, 12 Corlan y Rhos, Llanrug.

£15: Arthur a Dilys Jones, Hafan Elan, Llanrug.

£10: Jennie Hughes, Bryn Parc, Brynrefail; Goronwy Lewis, Stryd Ceunant, Llanberis; Jennie Hughes, Bryn Parc, Brynrefail; Mrs Ann Jones a'r teulu, Ty'n Gerddi, Penisarwaun; Mrs Margaret Owen, Bryn Gwylan, Waunfawr.

£5: Alice, Beddgelert, gynt o Llanberis; Hugh Morris, 9 Rhes Fictoria, Llanberis; Mrs Meira Rowlands, 17 Rhydfadog, Deiniolen; Mrs. Naomi Griffith, 11 Hafan Elan, Llanrug.

Eisteddfota.

Yn ystod y mis cefais y pleser o fynychu Eisteddfod Bentref Llanrug a Chwm y Glo yn neuadd Ysgol Brynrefail. Fel arfer, roedd toreth o gystadleuwyr yn adran yr oedran cynradd, a'r safon, yn naturiol yn annwyl o amrywiol, ond pob un yn gwneud eu rhan, a'r rhieni, y neiniau a'r teidiau yn mwynhau. Go wahanol oedd hi yng nghystadleuthau'r oedran uwchradd. Roedd y safon yn eithriadol o uchel, a phob canmoliaeth i'r bobl ifanc am fynychu ymarferion yn gyson a pherfformio'n arbennig ar lefaru, canu, actio, dawnsio a chystadleuthau offerynnol. Canmoliaeth hefyd i bobl ifanc Ysgol Brynrefail am gymryd eu rhan mor urddasol yn seremoni'r cadeirio a thlws yr ifanc. A chlod i'w hyfforddwyr am roi o'u hamser. Ond ble roedd y gynulleidfa? Roedd perfformiadau'r bobl ifanc yn haeddu llawer gwell cefnogaeth. Cafwyd enghraifft wych o dalent a gallu pobl ifanc yr ardal, ond doedd fawr neb yno i'w werthfawrogi. Rhag cywilydd arnoch bentrefwyr ardal Llanrug. Ond wedi dweud hynny, teg gofyn beth yw'r sefyllfa mewn eisteddfodau lleol eraill.

Diwedd Blwyddyn.

Wel dyna ni! Blwyddyn gyntaf yr olygyddiaeth newydd wedi dod i ben, a phopeth, diolch i'r drefn, wedi mynd yn eithaf didrafferth. Does gen i ond diolch i bawb fu'n ymwneud â'r papur dros y flwyddyn ddiwethaf – i swyddogion yr "Eco", i'r gphebwyr pentrefi (rhai ohonynt yn dirwyn eu tymor i ben eleni wedi oes o wasanaeth), y cyfrannwyr rheolaidd a'r holl ddosbarthwyr. Diolch i Gwyndaf (grid76) am fod mor amyneddgar gyda phensiynwr sy'n ceisio ymdopi â'r dechnoleg newydd, ac yn gwneud newidiadau i ddyluniad y papur yn llythrennol weithiau ar y funud olaf, fel yn achos llifogydd Llanberis y mis diwethaf. Dymunaf ddiolch hefyd i Gwynfor James o Ddeiniolen; enw nad yw'n ymddangos yng ngholofnau'r "Eco", ond sydd wedi bod yn fwy na pharod i gyfrannu lluniau o'i wefan SportpicturesCymru gydol y flwyddyn. Byddai'r dudalen gefn wedi bod yn bur llwm amryw i fis heb ei gymorth. Diolch i'r hysbysebwyr – yn rheolaidd ac yn achlysurol – am gefnogi'r papur yn ariannol, ond yn bennaf oll, diolch i chi, ddarllenwyr a phrynwyr yr "Eco" am barhau i gefnogi hen greadur pedwar cant oed! Ymlaen i 2013.

Rhifyn Chwefror fydd y cyntaf o'r flwyddyn newydd. Peidiwch os gwelwch yn dda ac anfon lluniau o ddigwyddiadau Nadoligaidd eu naws ar gyfer hwnnw. Ni fyddant yn cael eu cyhoeddi.

Aelod o'r teulu neu ffrind wedi gadael yr ardal?

Beth am i ni anfon copi o'r Eco iddynt bob mis
Gallwn anfon copiau drwy'r post neu dros y we.
Cost anfon drwy'r post am flwyddyn - o fewn Prydain: £13.50
- gwledydd Ewrop £33.50 - gwledydd eraill £42.50
Cost anfon dros y we am flwyddyn - £5.50
Cysylltwch ag Olwen Hughes ar 01286-674839 neu olwenwaen@yahoo.co.uk

Eco Dolig 2012.indd 2 18/12/2012 09:42

Tirlithriad

Gwnawn y pethau bychain …

Amgylchiadau anghyffredin eithafol achosodd y gorlif anarferol ar afon Goch yn Llanberis y mis diwethaf. Mae'r lluniau ar y dudalen hon yn dangos fel y bu tirlithriad ar y llethrau uwchben Cwm Ty Du, a hwnnw'n rhannol gyfrifol am yr ymchwydd o ddwr yn nyfroedd yr afonig heb fod ymhell o'i tharddle yng Ngafl yr Widdan. Gan fod llethrau Moel Eilio a chorsydd mawnoglyd Cwm Ty Du eisoes yn ddirlawn, doedd gan y genlli a ddaeth o'r tor-gwmwl unman i ddianc ond i'r afon. Ac fel y gwelir yn y lluniau, roedd lled a dyfnder afon Goch o fewn llai na milltir o'i tharddle yn anhygoel, gyda brwyniach a gwair wedi eu gwastatau am lathenni y naill ochr i'r afon. Does ryfedd fod y rhyferthwy dwr wedi sgubo ymaith y bont ger Maenllwyd ac wedi rhuthro i lawr y ceunant cul i gyfeiriad y pentref gan gario popeth i'w ganlyn.

Ac mae'n debyg y byddai hyn wedi digwydd hyd yn oed pe bai pob ffos a chwlfert wedi eu glanhau a'u clirio. Ond, prin ddyddiau cyn y drychineb roedd rhai o drigolion y pentref yn mynegi pryder am ddiffyg glanhau cwterydd a chwlferti. Roedd deiliach hydrefol wedi hel yn gaws pydredig ar hyd ochrau'r ffyrdd ac i mewn yn y gwterydd – a heb eu glanhau. Rhaid addef hefyd fod sbwriel yn cael ei daflu i'r afon, a hwnnw yn gymorth i wahardd llif naturiol y dwr o dan y bont yng nghanol y pentref.

Mae gennym oll, fel unigolion, gyfrifoldeb cymdeithasol os nad cyfreithiol, i lanhau'r stryd o flaen ein tai. Mae gan dirfeddiannwyr gyfrifoldeb i gadw ffosydd yn glir a glân ar eu tiroedd. Mae gan bawb gyfrifoldeb i roi sbwriel mewn biniau addas ac nid i'w taflu ar ochr stryd, dros y clawdd neu i'r afon agosaf. Ac yn sicr mae gan Gyngor Gwynedd gyfrifoldeb i gadw ochrau'r ffyrdd yn lân a gwneud yn siwr fod cwlferti a gwterydd ar ffyrdd cyhoeddus yn cael eu glanhau'n rheolaidd.

Pe bai hyn oll wedi ei wneud cyn diwedd Tachwedd eleni, efallai, ie efallai, y byddai mymryn llai o ddifrod wedi digwydd yn Llanberis a sawl pentref arall. Fel y dywedwyd ar y radio, 'mae'r cynghorau wedi arbed ceiniog er mwyn gwario punt'. Gwnawn y pethau bychain.







Eco Dolig 2012.indd 3 18/12/2012 09:42

Newyddion Ysgol Bethel.

Zoo Lab Cafodd yr ysgol ymweliad arbennig gan Zoo Lab. Cafodd yr Adran Iau weld nifer o greaduriaid o bob math a chyfle i afael yn rhai ohonynt. Diolch byth fod y tarantiwla wedi aros yn ei focs!

Eisteddfod Bethel Bu plant yr ysgol wrthi'n brysur iawn unwaith eto eleni yn paratoi at yr Eisteddfod Bentref. Cafodd cynnyrch llenyddiaeth a chelf o'r ysgol ei gyflwyno i'r Eisteddfod.

Cae'r Gylchu Daeth Gwenllian Roberts i'r ysgol yn ddiweddar i roi sgwrs i'r plant am y pwysigrwydd o ailgylchu. Gan mai ailgylchu yw thema'r adran iau roedd yr ymweliad yn un diddorol dros ben. Bydd yr Adran Iau yn cael mynd ar ymweliad i Gae'r Gylchu cyn diwedd y tymor fel rhan o'u hastudiaethau trawsgwricwlaidd.

Llongyfarchiadau i Mr Dylan Parry ac i Miss Sharon Jones ar enedigaeth Caio Dylan.

Glan Llyn Cafodd Blwyddyn 5 gyfle i fynd i Glan Llyn yn ystod y tymor. Diolch i Mrs Elwyn ac i Miss Barton am gymryd gofal o'r plant i gyd. Cafodd pawb amser gwych.

Ymgyrch Plentyn y Nadolig Mae nifer o blant yr ysgol wedi paratoi bocs llawn anrhegion Nadolig fel rhan or ymgyrch Plentyn y Nadolig. Daeth dros 70 o focsys i'r ysgol ac mae pob un ar eu ffordd erbyn hyn i roi gwên ar wyneb plentyn bach yn Rwmania.

Plant Mewn Angen Penderfynodd y Cyngor Ysgol y byddai'r plant yn cael cynnig dod i'r ysgol yn eu pyjamas ar ddiwrnod Plant Mewn Angen eleni! Llwyddodd yr ysgol i godi £233.00 at yr achos. Da iawn chi bawb.

Arolwg Sbwriel oddi amgylch y Neuadd Goffa

Arolwg Sbwriel Bu dosbarth Elidir yn cynnal arolwg sbwriel oddi amgylch y pentref yn ddiweddar. Prif ddarganfyddiadau y plant oedd bod nifer fawr o ardaloedd yn y pentref efo llawer iawn o sbwriel a bod prinder o finiau yn y pentref. Bydd rhai o'r plant yn cyflwyno adroddiad i'r Cynghorydd Sion Jones yn fuan iawn yn cynnig eu syniadau ar sut i leihau'r broblem sbwriel sydd yn y pentref.

Yr Adran Iau yn Melin Llynnon

Taith Ynys Môn Cafodd yr Adran Iau daith ddifyr dros ben i Ynys Môn yn ystod y tymor hwn fel rhan o'u hastudiaethau hanes. Cafodd y plant ymweld â Melin Llynnon, Din Llugwy a chyfle i weld trysorau Llyn Cerrig Bach yn Oriel Môn. Roedd yr ymweliad yn fan cychwyn gwych i'r gwaith dosbarth ar y Celtiaid.

Diwrnod Celtaidd

Diwrnod Celtaidd Cafodd plant yr Adran Iau ddiwrnod i'w gofio yn ddiweddar yn dathlu diwrnod Celtaidd yn yr ysgol. Bu nifer o weithgareddau coginio, celf a chrefft yn mynd ymlaen. Roedd y rhan fwyaf o'r plant wedi mynd i drafferth mawr i wisgo fel un o'r Celtiaid. Bu'n ddiwrnod bythgofiadwy.

Sul Y Cofio

Sul Y Cofio Bu plant Blwyddyn 6 wrthi'n brysur yn paratoi tuag at y Gwasnaeth Sul y Cofio blynyddol. Diolch i'r plant i gyd am wneud eu gwaith mor dda.

Cofiwch ddefnyddio
SWYDDFA POST BETHEL
(01248) 670261

ORIAU AGOR
5.30a.m.–7.30 p.m.
(Llun–Sadwrn)
5.30a.m.–3 p.m. (Sul)
10 a.m.–12pm
(Diwrnod Nadolig)

Cewch groeso cynnes gan,
CLED A SUSAN A'R TEULU

Cofiwch am ein gwasanaeth
newid pres tramor, yswiriant, talu biliau, etc., yn ogystal â gwasanaethau arferol Swyddfa'r Post.

A hefyd Paypoint, Loteri a
Pheiriant Tynnu Pres (Cashback)

Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn a Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

Gwenllian efo `r llyffant bol coch!

Cae'r Gylchu Daeth Gwenllian Roberts i'r ysgol yn ddiweddar i roi sgwrs i'r plant am y pwysigrwydd o ailgylchu. Gan mai ailgylchu yw thema'r adran iau roedd yr ymweliad yn un diddorol dros ben. Bydd yr Adran Iau yn cael mynd ar ymweliad i Gae'r Gylchu cyn diwedd y tymor fel rhan o'u hastudiaethau trawsgwricwlaidd.

Eco Dolig 2012.indd 4 18/12/2012 09:42

Parhad BETHEL

Clwb Bro Bethel.

Braf oedd cael mwynhau cinio Nadolig ymysg cyfeillion yn ddiweddar. Y Clwb Golff yng Nghaernarfon oedd y man cyfarfod a chroesawyd pawb ynghyd gan Lywydd y Clwb, y Parchedig Marcus Wyn Robinson. Anfonwyd cofion at y rhai oedd yn methu a bod yn bresennol a diolchwyd i Ann Ellis Williams ac Ivy Wright am yr holl drefniadau. Dymuna'r aelodau Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda i bawb yn y pentref.

Cymdeithas Lenyddol Dathlwyd Gŵyl y Geni ymysg aelodau'r Gymdeithas yn ddiweddar yn Festri Cysegr a chafwyd noson gartrefol braf gyda'n gilydd. Croesawyd pawb gan y Llywydd Dr. J. Elwyn Hughes ac roedd y cyfan wedi ei drefnu gan Robin Jones. Cafwyd darlleniadau o'r Beibl ynghyd â barddoniaeth pwrpasol ac, wrth gwrs, fe ganwyd nifer o garolau traddodiadol gan bawb. Cafwyd criw o ferched yn canu tair carol. Diolchwyd i bawb a gymerodd ran ac i'r merched am baratoi lluniaeth gan y Parchedig Marcus Wyn Robinson.

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon.
Ffôn: (01286) 872275

Eglwys Sant Gabriel Gan fod y tywydd wedi oeri, ni fydd gwasanaethau yn cael eu cynnal yn yr Eglwys ar hyn o bryd.

Undeb-y-Mamau Cafwyd bore mins peis llwyddiannus iawn yn 'Feed my Lambs' fore Sadwrn, 1 Rhagfyr. Mwynhaodd yr aelodau ginio Nadolig blasus iawn yn Bron Menai, Caernarfon ar 4 Rhagfyr.

Bydd y Cyfarfod nesaf ar 15 Ionawr yn Eglwys Sant Mair.

Gwellhad Buan Dymunwn wellhad buan i Mrs Mair Williams, Elidir View, Bwlch, sydd yn Ysbyty Gwynedd wedi damwain yn ei chartref. Hefyd i'w chwaer, Sarah, hithau yn yr ysbyty wedi damwain yn ei chartref. Gobeithio y bydd y ddwy gartref erbyn y Nadolig.

Cyfarchion y Nadolig Dymuna Mair a Meirion Williams, Elidir View, Bwlch, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w teulu, ffrindiau pell ac agos ac i'w cymdogion.

Diolch i bawb yng Nghwm-y-glo sydd wedi gofalu am newyddion i'r Eco drwy'r flwyddyn a Nadolig Dedwydd a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

PADARN LAKE
LLANBERIS (01286) 870260

PRYDAU DA AR GAEL
POB DYDD
CANOL DYDD
A GYDA'R NOS

Cinio Dydd Sul (CARVERY) rhwng 12.30 a 3.00 o'r gloch

TE BACH POB DYDD RHWNG 2.30 a 5.00

Cyfleusterau- Bartion• Priodasau ac Achlysuron Arbennig

Am gymorth:
- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli

MANTELL GWYNEDD
Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
Supporting voluntary and community groups

cysylltwch â Mantell Gwynedd
– yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com
01286 672626 neu 01341 422575
Elusen Gofrestredig 1068851 • Cofrestrwyd yng Nghymru • Cwmni Cyfynedig drwy Warant 3420271

BRYNREFAIL

Diolch Dymuna Jennie Hughes, Bryn Parc, ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i bawb gan na fydd yn anfon cardiau Nadolig eleni.

Cofion Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau am wellhad buan i Eirlys Williams, Marino, un o ddosbarthwyr ffyddlon yr Eco yn y pentref, yn dilyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

Cydymdeimlad Roedd yn ofidus gennym ddeall i Dafydd G. Ellis, Gweledfa, golli ei frawd a oedd y trigo yn Rhuthun. Bu farw Tom Ellis yn Ysbyty Gobowen ar Dachwedd 29ain. Mae ein cydymdeimlad â'r teulu oll yn eu profedigaeth.

Sefydliad y Merched Cynhaliwyd Gwasanaeth Carolau Grŵp Eryri o Sefydliad y Merched yn Eglwys Sant Peris, Nant Peris, nos Lun Rhagfyr 3ydd. Roedd goleuadau lliwgar hyd stryd y pentref yn groeso twymgalon i aelodau y gwahanol ganghennau cyn iddynt ymlwybro tua'r eglwys hynafol a oedd wedi ei haddurno yn chwaethus. Estynnwyd croeso i'r Gwasanaeth gan y Llywydd Pat Jones, o gangen Brynrefail, a chroeso ar ran yr Eglwys ynghyd â'r defosiwn gan y ficer, Y Parch Ddr Carol Roberts. Cafwyd cyfraniadau o ddarlleniadau o'r Ysgrythur a barddoniaeth Nadolig gan ganghennau Glasinfryn, Penrhosgarnedd, Waunfawr, Brynrefail, Arfon, Carneddi, Llandygai a Phontrug. Ymunwyd i ganu nifer helaeth o garolau dan arweiniad Lowri Prys Williams, Brynrefail, gyda Iwan Williams, Llanberis, wrth yr organ. Gwnaed casgliad tuag at Eglwys Sant Peris a mwynhaodd pawb luniaeth ysgafn dymhorol ar ddiwedd y noson wedi ei drefnu gan gangen Brynrefail.

Yr Eglwys Bresbyteraidd

Gwasanaeth Bore Dydd Nadolig Fel rhan o Ofalaeth Glannau'r Saint estynnir gwahoddiad i ni fel Eglwys i ymuno yn yr Oedfa Gymun am 10 o'r gloch dan arweiniad y Gweinidog, Y Parch Marcus Wyn Robinson, yng Nghapel Cysegr, Bethel.

Cyfarchion yr Ŵyl Dymunwn anfon ein cofion gan ddymuno Nadolig Dedwydd a Blwyddyn Newydd Fendithiol i'n haelodau a'n cydnabod oll a chofion arbennig at un o'n blaenoriaid, Mr Bertie Roberts, Llwyncoed Bach, sydd yn gaeth i'w gartref ers peth amser.

Oedfaon Ionawr 2013:

6: am 4.00 - Parch Iorwerth Jones Owen, Caernarfon
13: am 5.3 - Mr Glyn Owen, Llanwnda
20: am 5.30 - Parch Ganon Idris Thomas, Deiniolen
27: am 5.30 - Parch Dafydd Lloyd Hughes, Caernarfon.

NANT PERIS

Kate Pritchard (872331) neu
econantperis@hotmail.com

Treialon Cŵn Defaid Ar yr 17eg o Awst, cynhaliwyd Treialon Cŵn Defaid Nant Peris a'r Cylch. Cafwyd 50 o gystadleuwyr yn ystod y diwrnod. E.L. Morgan o Aberystwyth oedd enillydd y dosbarth agored. John Pritchard o Nant Peris enillodd y dosbarth lleol gyda'i gi, Fflei. Dosbarthwyd £450 o elw y llynedd rhwng tair elusen: Cancr Y Fron, Ambiwlans Awyr ac FSID.

Eco Dolig 2012.indd 5 18/12/2012 09:42

Gêr uwch i Ogwen: pyncjar i Peris?



Ar ddiwedd Tachwedd cafwyd adroddiad yn y wasg ynglyn â bwriadau Cyngor Gwynedd i ymestyn llwybr beicio yn ardal Tregarth a Bethesda. Mae cynghorwyr Gwynedd wedi cytuno i dderbyn cyfrifoldeb am dwnnel a thraphont a fu yng ngofal Bwrdd Eiddo'r Rheilffyrdd Prydeinig (British Rail Property Board) ers i'r rheilffordd i Fethesda gael ei chau ym 1963. Bydd y gwaith ar ddatblygu'r llwybr yn cychwyn yn ystod blwyddyn ariannol 2012/13. Amcangyfrifir y bydd angen £200,000 i addasu'r twnnel (gan gynnwys sustem oleuo) a'r draphont i fod yn rhan o Lôn Las Ogwen.

Llongyfarchiadau i drigolion dyffryn Ogwen am lwyddo i gael gwelliannau eto fyth i'w llwybrau beicio.

Ond beth am ddyffryn Peris?

Yn ystod yr wythnos yr ymddangosodd y wybodaeth uchod, daeth ystadegau eraill i'r amlwg yn dangos fod beicwyr ar ffyrdd gwledig yn wynebu mwy o beryglon na beicwyr mewn trefi, a bod y ganran o ddamweiniau yn achosi marwolaeth ar ffyrdd gwledig yn llawer uwch. Gwta wythnos yn ddiweddarach cafodd beiciwr lleol ddamwain ger Garej Beran, a hynny ar ffordd yr A4244 sy'n cael ei chyfrif yn un o'r ffyrdd peryclaf yng Ngwynedd, gyda chyfyngiad gyrru o 50 m.y.a. arni.

Wedi blynyddoedd o ymgyrchu, nid yw Lôn Las Peris ond yn cyrraedd Craig yr Undeb. Mae twnnel Penllyn yn parhau heb wyneb llyfn na goleuadau, er y cafwyd addewid gan Gyngor Gwynedd flynyddoedd yn ôl i wella'r sefyllfa. Yn y cyfamser, mae gwariant sylweddol ar godi uchder y wal o geg y twnnel i fyny'r troadau tua Gwêl y Llyn. Teg gofyn, i ba bwrpas?

Onid yw'n bryd i drigolion yr ardal roi pwysau ar eu cynghorwyr lleol i ddwyn perswâd ar Gyngor Gwynedd i ystyried o ddifrif yr anghenrhaid am lwybr beicio addas fydd yn cysylltu'r dyffryn â thref Caernarfon? Yntau fydd yn rhaid i'r ardal ddioddef damwain mwy difrifol cyn y ceir ymateb?

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

FFRAMIA

Parc Padarn, Llanberis

(01286) 870922)

www.fframia.com

www.fframia.com

Gwasanaeth Fframio Lluniau

Dewis eang o luniau yn yr Oriel ac ar y wefan

William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen Keith Andrew a mwy

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

SWIGOD A SEBON

SYCHLANHAU

Altro • Ailwnïo

GWASANAETH

Casglu a Danfon

Gwasanaeth Golchi a Smwddio

54 STRYD FAWR LLANBERIS

(01286) 870088

Y llyfrau diweddaraf ar glicied botwm

Mae Gwasanaeth Llyfrgelloedd Gwynedd bellach yn cynnig mynediad rhad ac am ddim i e-lyfrau testun a llyfrau llafar i aelodau holl lyfrgelloedd y sir ac o'r wefan.

Mae mwy na 6,000 o lyfrau ar gael i'w lawr lwytho - o'r cyfrolau poblogaidd a mwyaf ffasiynol i lyfrau hunan-gymorth, o'r clasuron llenyddol i lyfrau coginio yn ogystal ag ystod eang o lyfrau ar gyfer plant.

Nawr, gall aelodau llyfrgelloedd Gwynedd fenthyg e-lyfrau o'r cartref, neu hyd yn oed os ar wyliau, unrhyw awr o'r dydd neu'r nos, drwy ddefnyddio eu cerdyn aelodaeth a rhif adnabod personol

Dywedodd y Cynghorydd Ioan Thomas, aelod o Gabinet Cyngor Gwynedd gyda chyfrifoldeb dros wasanaethau llyfrgelloedd:

'Rydw i'n falch fod y gwasanaeth newydd yma ar gael ac yn edrych ymlaen at gael lawr lwytho un o'r cannoedd o lyfrau sydd ar gael.

'Ble bynnag rydych yn y byd, gallwch fenthyg un o nifer fawr o lyfrau o'ch llyfrgell leol – a fydd ddim rhaid i chi boeni am ddychwelyd eich llyfrau ar amser nag am ddirwyon llyfrgell, gan fod llyfrau digidol yn dileu eu hunain ar ôl tair wythnos.

'Os ydych yn cael cyfrifiadur llechen, e-ddarllenydd neu ffôn Android yn anrheg Nadolig, beth am roi cynnig ar y gwasanaeth newydd gwych yma?"

Gall aelodau llyfrgell lawr-lwytho hyd at bedwar llyfr ar y tro a bydd pob cyfrol ddigidol yn cael ei chwalu ar ôl 21 niwrnod.

Ychwanegodd y Cynghorydd Thomas: 'Os nad ydych yn aelod o'r llyfrgell ac y byddech yn hoffi ymuno, galwch heibio un o'r 17 llyfrgell yn y sir a siarad efo un o'r aelodau staff cyfeillgar, neu ewch i'r wefan www.gwynedd.gov.uk/llyfrgell ble gallwch ymuno ar lein.

'Unwaith rydych wedi ymaelodi gallwch greu cyfrif a lawr lwytho e-lyfrau a llyfrau llafar yn rhad ac am ddim.'

Am fwy o wybodaeth am Wasanaeth Llyfrgelloedd Gwynedd, gan gynnwys lleoliadau llyfrgell ac oriau agor, ewch i'r wefan www.gwynedd.gov.uk/llyfrgell

ECO'r Wyddfa

Cefnogwch ein hysbysebwyr

Eco Dolig 2012.indd 6 18/12/2012 09:42

Dyma'r stori ennillodd Dlws yr Ifanc i Math Roberts yn Eisteddfod Pentrefi Llanrug a Chwm y Glo.

Y Ddamwain

Rowliodd y llawr yn gyflym o dan fy nhraed wrth i mi ganolbwyntio ar un peth yn unig - y rhuban coch. Doedd dim byd o'nghwmpas, doedd dim byd yn bwysig. Roeddwn yn fy nhywyllwch fy hun. Dim ond y fi a'r rhuban. Y rhuban o obaith. Y rhuban enwocaf yn y byd. Y rhuban a fyddai yn cario fy enw i bob man yn y byd i gyd. Fi. Emyr Owen. Y bachgen diniwed o'r Maes Glas. Emyr Owen. Pencampwr y can medr Olympaidd.

"Go on Emyr!" Marged oeddd ar yr ochor, yn fy annog i, fel arfer. Cymerais gip olwg peryglus yn ôl a gweld y lleill fel pryfaid bach yn y pellter. Lledodd gwên enfawr dros fy ngwyneb wrth i 'mrest dorri'r sidan coch, a llewyrchu fy mhencampwriaeth i bawb gael gweld. Chwythwyd y chwiban, a gwenodd yr holl dorf arnaf.

Wrth gerdded tuag at y cyflwynydd medalau, roeddwn yn teimlo yn hynod fodlon i dderbyn y symbol o oruchafiaeth. Yfais yr holl glôd a hapusrwydd fel siampên. Gwyrais fy mhen yn ufydd, a theimlais y fedal yn disgyn ar fy mrest. Y balchder i gyd ar fy ysgwyddau wrth i mi edrych ar y plant yn cymeradwyo'n eiddgar.

Cerddais i ganol cynnwrf y bobl, yn chwylio am un person yn arbennig. Clywais y chwerthiniad hapus yn dod o'm tu ôl a throis i gwrdd â'r wyneb cyfarwydd un waith eto.

"Hei da iawn chdi!" meddai Margedd, yn gwenu o glust i glust ac yn dangos rhesi o ddannedd. "Ella bod siawns dda gan Dŷ Cadnant o ennill rŵan, os dwi'n colli de!" Rhedod wên slei dros ei hwyneb.

"Ha! Dwi'n amau! Pwy arall 'fysa'n gallu dy guro di Marged Williams?" atebais.

Gwenodd arnai, â'i hwyneb yn dangos un peth, ac un peth yn unig.

"Go!" Mi rhedon ni am ein bywydau tuag at y postyn golau ym mhen draw'r cae. Edrychais i fy ochor a gweld hithau'n edrych yn ôl arnai.

Gwenais a rhedeg y ddeng metr olaf yn dal i edrych arni.

Pasiais gysgod y postyn o'r diwedd ac arafais i ddisgwyl am y falwen a oedd yn treulio y tu ôl i mi.

"Dwi'n medwl bod Cadnant am ennill mabolgampau'r ysgol o'r diwedd, am y tro cynta' eleni," ochneidiais cyn cael edrychiad llond bol ganddi. "Paid a phoeni, nei di'n dda, dwi'n gwbod!"

Rhoddais goflaid bach iddi hi a dymuno lwc dda, cyn iddi gerdded at y llinell ddechrau. Chwythwyd y chwiban, a rhedodd deuddeg o ferched i lawr y trac, gydag un yn arwain yr ymgeiswyr gobeithiol eraill.

Enillodd hi yn y diwedd, ac fe enillodd Elidir, ei thŷ hi hefyd, ond doedd hi ddim yn poeni am hynny, dim ond yn poeni fy mod i a hithau wedi ennill, gan ddangos ein medalau a mwynhau'r clod gyda'n gilydd. Hi a fi a neb arall.

Aethom yn ôl i fy nhŷ i wedyn i gael rhywbeth i'w fwyta.

"Tyd, awn ni am jog bach, ia?" awgrymais. Roeddem yn mynd weithiau, dim ond er mwyn cael amser i ni ein hunain i siarad, a gwneud y pethau yr oeddem yn caru eu gwneud.

"Sori Emyr, dwi'n methu heno, dwi'n gorfod mynd i'r pantomeim 'na sy'n dre. Mae mrawd i ynddo fo. Cofio? Mae isho mynadd yn does!" atebodd gyda thôn trist yn ei llais.

"O tyd 'laen Mags, hanner awr fach, ac mi gawn ni aros ar y fainc 'na ti'n licio, dwi'n gwbod fedri did dim gwrthod hynny," meddwn gan obeithio y byddai yn ymateb yn well y tro ma.

"Oce ta, ond dim ond hanner awr, iawn? Dwi di gaddo i Geth y byddai yno iddo fo."

Ac allan a ni drwy'r drws am y parc.

Bum yn siarad am beth oedd yn teimlo fel hydoedd ar y fainc, yn malu awyr am bethau dibwys. Dyna beth dwi'n hoffi am Mags. Mi fedrai ddweud unrhywbeth wrthi heb ofni am beth fydd ei hymateb.

"Marged?"

"Ia"

"Gai ofyn rhywbeth wrtha chdi?"

"Cei siwr, dwi yma i wrando pob amser, ti'n gwybod hynny Ems."

"Wel, ti'n gwybod bod ni'n ffrindiau da dwyt?"

"Wrth gwrs bo' ni."

"Wel, wedi bod yn meddwl ydwi."

"Ia?"

"Bod ella…"

"Ia?"

"Wel,"

"Ems, be sy'?"

"Isio bod yn fwy na ffrindiau dwi de."

"O! Tisio bod yn ffrindiau gorau?" Goleuwyd ei gwyneb ac yna chwarddodd fel petai hwnnw oedd y jôc gorau yn y byd.

"Mags, ma'i digon anodd fel ma'i, a dydi dy jôcs di ddim yn helpu pethau."

"Sori, sori," meddai, gan geisio beidio chwerthin.

"Marged, dwi o ddifri, dwi'n licio chdi oce, wiry n dy licio di."

Teimlais fod y pwysau enfawr wedi cael ei godi oddi ar fy ysgwyddau, ond bod un gwaeth yn cymryd ei le. Beth byddai ei hymateb.

Pasiodd eiliadu heibio a oedd yn teimlo fel oriau. Yno, o'r diwedd, fe ddigwyddodd rhywbeth. Mi bwysodd tuag ataf, mi bwysais innau tuag ati hi. Nid oeddwn yn medru dychmygu pa mor lwcus oeddwn i gael bod filimetrau i ffwrdd o'r ferch prydferthaf erioed. Roedd ei gwefusau perffaith hi'n boenus o agos. Fe gyffyrddodd ei gwefusau fy rai i. Ffrwydrodd y blas melysa erioed yn fy ngheg. Roeddwn i'n hedfan yn yr awyr fry yn malio dim am yr hyn a oedd yn digwydd ar y byd bach cymhleth oddi tanaf. Ond roedd yn rhaid iddo orffen yndoedd. Fel pob dim arall. Cefais fy nhynnu yn ôl i reality a fy nrhaed yn ôl ar lawr. Edrychais i mewn i'w llygaid gas perffaith yn ddwfn a gweld hithau'n edrych yn ôl arna i.

"O mai god, mae rhaid i mi fynd neu fyddai'n hwyr i'r panto' ma, sori Ems," cododd hi i fyny a rhedeg i'r lôn. "Welai di fory oce? Gaddo."

Roedd hi ar gymaint o frys na welodd hi'r car yn dod yn syth tuag at ei hwyneb tlws.

Gorweddai yno'n llonydd. Perffaith llonydd. Perffaith.

Doeddwin i ddim yn gwybod beth i'w wneud. Fe ddigwyddod mor sydyn.

Mor annisgwyl. Codais i fyny yn rhy gyflym. Pendro. Eisteddais yn ôl i lawr.

Amser. Doedd na ddim digon o amser. Teimlo yn sâl. Roedd rhaid gwneud rhywbeth. Ond be? Cerddais yn ôl a mlaen yn ddi -gyfeiriad. Wedi drysu. Pryderus. Ffrwydrodd casineb yng nghanol fy enaid. Llenwodd fy nghalon â phryder. Teimlais lwmp enfawr yng nghefn fy ngwddw. Teimlais wagle yn ffurfio. Teimlais waed yn berwi. Teimlais boen.

Gorweddai yno'n dawel, yn berffaith llonydd. Yn berffaith.

"Hei, ti di deffro," meddwn wrth ei gwylio yn agor ei llygaid a dangos y glas prydfertha erioed.

"Lle 'dwi?" gofynnodd hi'n anymwybodol.

"Ti'n yr ysbyty Mags, ti'n iawn, paid a poeni, mae pob dim yn iawn. Rhyw ddamwain fach dyna cwbwl."

"Lle ma Mam? Dwi'n gorfod mynd i'r pantomeim, mi nes i addo."

"Hei, hei, Mags, mae'n iawn, paid a poeni, dwi'n fama, mae popeth yn iawn, dwi 'di dweud wrth Geth, paid a trio symud oce, mi fydd popeth yn iawn," meddai Delyth wrth gerdded at y gwely.

"Pam, be sy'n bod? Pam dwi ddim yn cael symud?" gofynnai yn nerfus fel pe bai ddim eisio gwybod yr ateb. "A sut wyt ti wedi cael dod yma Ems? Dim ond teulu sy'n cael bod yma o' ni'n meddwl."

"Dwi yn deulu dydw… cariad."

Pwysais i mewn ati, gafael ei llaw a'i chusanu. Roedd golwg o gywilydd ar ei hwyneb pan gwelodd hi ei Mam yn gwenu'n fawr arni.

"Mam, nath'o chi ddim ateb fy nghwestiwn i," medddai yn ddiamynnedd, ond gyda twts o nerfusrwydd yn ei llais

"Yli cariad," medda'i Mam, yn dymuno nad oedd rhaid iddi ddweud yr hyn a roedd hi am ei ddweud, "yng nghanol y ddamwain," saib "fe darodd y car, dy glûn di."

Trois fy nghefn ac anelu am y drws gan fy mod yn gwybod na fyddwn i yn gallu ddioddef yr hyn oedd am ddigwydd. Yna, teimlais law oer yn gafael yn fy un i, yn fy nhynnu i'n ôl.

"Dwisio ti aros," meddai Marged, gan dal i afael yn dynn yn fy llaw.

"Cariad," cychwynodd Delyth eto, " mae yna siawns go ddo dy fod di'n mynd i fod mewn cadair olwyn am weddill dy fywyd."

Es i'w gweld hi'n aml wedyn. Pob diwrnod a'i yno i'w gweld hi'n gorwedd yn ei gwely, neu ar y soffa. Yn mynd a blodau a siocled iddi ac ati, ac yn codi ei chalon. Roedd ei hwyneb prydferth hi'n goleuo pob amser y cerddwn i mewn i'r ystafell.

Ond un diwrnod fe aeth yr holl ddigwyddiadau yn ormod. Dywedais fy mod yn methu llawer o ymarferion rhedeg.

"Wel sori. Os dwi'n gymaint o drafferth waeth i ti beidio dod i f ngweld i o gwbwl ta."

"Mags, dwi'm yn deud hynny."

"Ti'm yn gwybod faint o lwcus ti sdi Emyr, yn cael y rhyddid i redeg yn rhydd, âr gwynt yn chwythu yn dy wallt ac yn taro dy wyneb. Yn teimlo'n rhydd fel dy fod yn hedfan, a dim byd arall yn dy boeni di o gwbwl. Mae genai hiraeth mawr Emyr, a ti'n mynd o gwmpas yn cwyno!"

"Mags fedrai ddim dychmygu rhedeg hebddat, yn gwennu a chwerthin wrth fy ochor."

"Wel mae rhad i ti ddod i arfar hefo fo!"

Rowliodd y llawr yn gyflym o dan fy nhraed wrth i mi ganolbwyntio ar un peth yn unig - y rhuban coch. Doedd dim byd o'nghwmas, doedd dim byd yn bwysig. Roeddwn yn fy nhywyllwch fy hun. Dim ond y fi a'ar rhuban. Y rhuban o obaith. Y rhuban enwocaf yn y byd. Y rhuban a fydd yn cario fy enw i bob man yn y byd i gyd. Fi. Emyr Owen. Y bachgen diniwed o'r Maes Glas. Emyr Owen. Pencampwr y can medr Olympaidd. A diolch i un person a un person yn unig. Cauais fy llygaid a dychmygu'r wyneb tlws. Yr un llygedyn bach o olau yng nghanol yr holl sŵn a chyffro. Yr un wyneb a oedd yn fy ngyrru i ymlaen at y llinell derfyn. Wyneb yr un yr wyf i yn benderfynol o'i chefnogi yn ôl, a'i hannog hi i gyrraedd y safon ucha posibl – y Gemau Paralympaidd.

Eco Dolig 2012.indd 7 18/12/2012 09:42

CHWILOTA

Teulu Tyson a Chladdfa Llanddeiniolen.

Yn rhifyn Tachwedd holais am wybodaeth ynglyn â theulu oedd yn byw yn Uwch Sardis, Dinorwig, ond oedd â chysylltiadau â Blaenau Ffestiniog. Rhyw fyw mewn gobaith oeddwn i gan fod y cyfenw wedi diflannu o blwyf Llanddeiniolen erbyn 1851, felly syndod o'r mwyaf oedd derbyn galwad gan Dafydd Fear, Llanrug yn dweud fod gwybodaeth ar y wê oedd yn olrhain hanes y teulu a'u cysylltiadau. Roedd John ac Anne Tyson o Ddinorwig yn dystion priodas i un o hynafiaid Rhiannon, gwraig Dafydd, a dyna sut y daeth ar draws y wefan. A'r syndod oedd fod cysylltiadau â Llanberis hefyd. Deallaf mai'r gwr a wnaeth yr holl ymchwil gwreiddiol oedd John Buckley.

Dyma geisio crynhoi hanes y teulu a'u cysylltiadau â'r ardal hon.

Dros ddwy ganrif yn ôl daeth pedwar o deuluoedd o ardal Seathwaite yn nyffryn Duddon, Cumbria i ardal Blaenau Ffestiniog: Turner, Casson, Tyson a Penny. Roedd yn amlwg fod cysylltiadau teuluol rhyngddynt oherwydd Elizabeth Tyson oedd enw mam y brodyr Casson cyn iddi briodi, ac yr oedd ganddi nai o'r enw John Tyson (ond nid yr un a ddaeth i Gymru mae'n debyg). Prynwyd Chwarel Diffwys gan William Turner a'r brodyr Thomas a William Casson. Ymddangosodd John Tyson ar gofrestrau plwyf Ffestiniog am y tro cyntaf yn 1803.

Bu John Tyson yn gweithio yn yr Iwerddon ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif, ynghyd â William Turner; y ddau yng nghyflogaeth Charles Roe o Macclesfield. Daeth Charles Roe yn ddiweddarach i fuddsoddi yng ngweithfeydd copr godre'r Wyddfa, ac oherwydd y trafferthion milwrol yn Iwerddon yn ystod y cyfnod hwn, mae'n amlwg fod John Tyson wedi dychwelyd gyda'i briod a'i ferch ac ymsefydlu yn ardal Nant Peris. Yng nghofrestrau plwyf Llanberis ceir cofnodion bedyddio dau o'i blant, sef Joseph yn 1799 a Margaret yn 1801. Fel 'Dayson' y caiff ei enw ei sillafu ar y cofrestrau, sef y dull o ynganu'r enw. Erbyn 1803, fel yr adroddwyd eisoes, roedd John Tyson a'i deulu ym Mlaenau Ffestiniog.

Priododd Mary, merch hynaf John Tyson, â Lewis Roberts yn 'Stiniog yn 1823. O ddisgynyddion y ddau hyn y daw'r miliwnydd o Awstralia; felly does dim cysylltiad o gwbl ganddo â'r fro hon!

Erbyn 1809 roedd William Turner mewn rhyw fath o bartneriaeth â theulu'r Faenol, a chyfrifoldeb am Chwarel Dinorwig. Symudodd i fyw i'r Parciau yng Nghaernarfon, ac yno y ganed ei fab, Syr Llewelyn Turner.

Rywbryd rhwng 1823 a 1832 daeth John Tyson yn ôl i'r ardal, gan ymsefydlu y tro hwn yn Ninorwig, gyda'i dri blentyn ieuengaf, Sarah, Ann a John. Roedd dwy eraill o'i ferched yn briod, sef Jane ac Elizabeth, a symudodd eu teuluoedd hwythau yma hefyd (ond wrth gwrs, nid Tyson oedd eu cyfenwau).

Fel yr adroddwyd yn rhifyn Tachwedd, bu farw Elizabeth Tyson ar 30ain o Fedi 1837 yn 62 oed, a'i chladdu ar y 4ydd o Hydref ym mynwent Llanddeiniolen. Ar y pryd roedd y teulu yn byw yn Ty'n y Mynydd. Bu John Tyson farw ar y 15fed o Dachwedd 1845 yn 72 oed, o Uwch Sardis, ac fe'i claddwyd yntau yn Llanddeiniolen. Cofnodir enw Elizabeth ar y garreg fedd, ond nid John ei gwr. Mae'r arysgrif yn Saesneg, oherwydd Gwyddeles oedd Elizabeth, ac fe'u priodwyd tra roedd John yn gweithio yn Iwerddon i Charles Roe. Yn Iwerddon hefyd y ganwyd Mary, y ferch hynaf, ond gweddill y plant yng Nghymru – yn Llanberis a 'Stiniog. Mae'r arysgrif Cymraeg ar yr un garreg yn cofnodi marwolaeth John David Owen, Craig y Dinas, sef mab un o ferched John ac Elizabeth.

Adroddais yn rhifyn Tachwedd mai Syr Llewelyn Turner a dalodd am y garreg fedd yn Llanddeiniolen. Mae hynny, wrth gwrs yn anghywir, gan mai ei dad, William Turner fu'n gyfrifol am wneud hynny, ac er nad oes tystiolaeth bendant ar gael, mae posibilrwydd cryf iawn fod perthynas deuluol agos rhyngddynt. Y gred yw fod John Tyson a William Turner wedi priodi dwy chwaer tra'n gweithio yn Iwerddon. Labrwr tlawd oedd John Tyson pan fu farw ei wraig yn 1837, ond roedd William Turner yn ddyn cefnog. Tybed felly ai gwraig William Turner (a chwaer dybiedig Elizabeth Tyson) a'i cymhellodd i dalu am y garreg fedd?

Anfonwyd crynodeb fel yr uchod i'r "Eco" y mis diwethaf hefyd, ond ni chafwyd enw'r cyfrannwr.

Y Capten.

Dyma deitl cylchgrawn na chlywais amdano erioed o'r blaen nes i ddwy gyfrol ohono gael eu dangos i mi'n ddiweddar. Ac mae'n ymddangos mai dyma'r unig ddwy gyfrol a gyhoeddwyd erioed, rhwng blynyddoedd 1930 a 1933.

Does dim son am y cylchgrawn yn y Cydymaith i Lenyddiaeth Gymraeg, ond deuthum ar draws cyfeiriadau byr tuag ato yng nghyfrol gyntaf R.E.Griffith o hanes Urdd Gobaith Cymru.

Roedd Cymru'r Plant yn bodoli eisoes, ond erbyn dechrau'r tridegau roedd galw am gylchgrawn ar gyfer yr ieuenctid (oedran yr arddegau). Y penderfyniad felly oedd canolbwyntio ar ddeunydd darllen i oedran ysgolion cynradd yn Cymru'r Plant, a sefydlu'r Capten ar gyfer ieuenctid oedran ysgolion uwchradd.

Ond mae'n ymddangos fod y baich wedi bod yn ormod i'r golygydd, Ifan ab Owen Edwards (a oedd hefyd yn olygydd Cymru'r Plant), a dim digon o awduron i ysgrifennu ar gyfer yr oedran uwchradd, fel bod oes fer Y Capten wedi dod i ben ym mis Medi 1933.

Tybed oes rhywun o ddarllenwyr yr "Eco" yn cofio gweld y cylchgrawn hwn?

Brodor o'r Fachwen yn weinidog yn America.

W. Arvon Roberts o Bwllheli, yr arbenigwr bellach ar Gymry America, a anfonodd y wybodaeth am J.W.Morris, a aned yn y Fachwen ym 1850. Ei rieni oedd William a Catherine Morris, ac yr oedd ei fam yn gyfnither i'r Parch Robert Hughes, Uwchlaw'r Ffynnon, Llanaelhaearn.

Prin oedd ei addysg gynnar, a gorfu iddo fynd i Chwarel Dinorwig i weithio'n ifanc, ond yn 1867 ymfudodd i Slatington, Pennsylvania. Roedd llawer o'r chwareli llechi yno yn segur, ac am saith mis bu'n crwydro ymysg ffermwyr Cymreig yn nhalaith Kansas. Dychwelodd i Gymru yn 1869 a phriodi Mary Roberts, merch o Lanllechid yn wreiddiol. Ond dychwelodd y ddau i Slatington a ganed iddynt chwech o blant. Roedd y teulu yn aelodau yng nghapel Cymraeg y Methodistiaid yno, a chyn cyrraedd ei ddeg ar hugain oed, codwyd J.W.Morris yn flaenor. Yn 1885 dechreuodd bregethu, ac erbyn 1888 ef oedd gweinidog capeli Poultney a South Poultney, Vermont. Cafodd ei ordeinio yng Nghymanfa Efrog Newydd yr un flwyddyn.

Yn 1892 dychwelodd yn weinidog ar ei fam eglwys yn Slatington, ac ychwanegu capeli eraill at ei ofalaeth. Yn 1924 dechreuodd ei nerth ballu, ac amharwyd ar ei lais fel na allai lefaru yn eglur. Ymddiswyddodd o'r weinidogaeth ac ymddeol i Granville, Efrog Newydd. Yno bu farw yn 1928.

Tra'n weinidog, dibynnai ar deithio o un alwad i'r llall ar ei geffyl – Hen Dan. Ond yn ôl pob son, ceffyl digon styfnig oedd Hen Dan, a meddwl ei hun ganddo. Mynych y cai J.W.Morris drafferth i'w berswadio i fynd y ffordd a fynnai.

Ysgrifennodd J.W.Morris nifer o ysgrifau i'r 'Drych' ac i'r 'Cyfaill'; erthyglau a fyddai'n cael eu cysidro yn bethau digon sych erbyn heddiw, megis "Diwinyddiaeth Gymreig: ei phrif deithi yn ystod yr hanner canrif diwethaf", sef pregeth a draddododd yng Nghymanfa Gyffredinol Utica.

Tybed oes cysylltiadau teuluol yn parhau yn ardal yr "Eco" heddiw?

Eco Dolig 2012.indd 8 18/12/2012 09:42

CHWILOTA

Parhad

Taflu cerrig at ysgol.

Ym mis Ionawr 1915 cafwyd adroddiad yn y Dinesydd Cymreig am lanc o Lanrug a ymddangosodd o flaen Ynadon y Sir yng Nghaernarfon ar gyhuddiad o daflu cerrig ar do Ysgol Bryneryr, Llanrug. Ar noson Gwyl San Steffan y flwyddyn cynt y cyflawnodd yr anfadwaith! Roedd y prifathro, Mr T.J.Lloyd yn adrodd fod trafferthion wedi bod dros gyfnod y Nadolig, a bod un o ffenestri'r ysgol wedi ei thorri hefyd.

Rhyddhawyd y llanc, ond bu'n rhaid iddo dalu costau o 19 swllt (bron i bunt yn arian heddiw). Cafodd hefyd ei rwymo i gadw'r heddwch am chwe mis am swm o £5.

Peidiodd Ysgol Bryneryr a bod pan adeiladwyd Ysgol Brynrefail yn Llanrug, ac y mae bellach yn ganolfan awyr agored i un o awdurdodau addysg Lloegr.

Teulu Cae Siencyn, Llanrug.

Daeth cais am wybodaeth am ddisgynyddion unrhyw aelod o deulu Cae Siencyn, Llanrug. Roedd aelod o'r teulu yn byw yno yn ystod y 1960'au, a'r cyfenw oedd Owen. Anfonwch unrhyw wybodaeth i mi os gwelwch yn dda.

Gyda diolch i bawb a gymerodd ddiddordeb yng nghynwys y golofn dros y flwyddyn ddiwethaf, a diolch yn enwedig i'r rhai a gyfrannodd wybodaeth i ychwanegu at ein stôr o fanylion am hanes y fro. Mwynhewch dymor y gwyliau, a dychwelwch yn y flwyddyn newydd gyda chais am wybodaeth neu gyfraniad, yn enwedig lluniau, gan anfon at Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. Ffôn: 01286 673515.

Un funud fach ...

STORI GYFARWYDD

Defod flynyddol i mi yw ceisio gweld yn y Radio Times pryd fydd yr Italian Job ar y teledu. Does a wnelo'r ffilm hon ddim â'r 'Dolig, ond bu'n rhan o arlwy teledu'r Ŵyl ers blynyddoedd.

Ond daeth y Nadolig yn gynnar eleni gan fod yr Italian Job wedi ei dangos ddiwedd Tachwedd. A do, mi wnes ei gwylio eto. Beryg iawn na chaiff ei dangos eto dros yr Ŵyl. Felly, mi fydd rhaid mynnu bod p'run bynnag o'r hogia sydd wedi benthyca fy nghopi DVD yn ei ddychwelyd ar unwaith!

Bron na fedraf adrodd darnau o sgript yr Italian Job gan mor gyfarwydd yw'r ffilm. Ac eto, gallaf weld ynddi bethau na sylwais arnynt o'r blaen. Dim byd o bwys, cofiwch; diddanwch, a dim arall, yw'r ffilm hon, wedi'r cyfan. Er enghraifft, doeddwn i ddim wedi sylwi tan y noson o'r blaen bod yna dipyn o gwffio wrth i'r lladron ddwyn yr aur ar strydoedd Torino cyn ei drosglwyddo i'r tri char mini sydd wedyn yn gwibio trwy'r ddinas.

Os na ddangosir y ffilm hon, bydd hen stori arall, fwy cyfarwydd na'r un ffilm, i'w gweld a'i chlywed eto'r Nadolig hwn. Stori am rodd yn hytrach na lladrad yw honno, a honno'r rhodd fwyaf un. Mae'r cymeriadau'r stori'n gyfarwydd iawn, a'r un yw'r sgript am y rheswm syml nad oes modd gwella ar honno. Yr un yw neges yr angel, ac ufudd-dod Joseff, a rhyfeddod Mair, a llawenydd y bugeiliaid, a chasineb Herod a thaith y doethion. Oherwydd yr un yw Duw o oes i oes, a'r un yw Iesu o 'Ddolig i 'Ddolig.

Ie, yr un yw'r rhodd, a'r un yw'r cariad sy'n gyfrifol amdani. Ac eto, bob tro y meddyliwn am y rhodd fwyaf un, yr Arglwydd Iesu Grist ei hun, mae modd gweld rhywbeth na welsom mohono o'r blaen. Boed hynny'n wir amdanom y Nadolig hwn wrth i ni ystyried unwaith eto ddigwyddiadau rhyfeddol y noson y ganwyd plentyn bach Mair. Boed i'r hen hanes lefaru wrthym o'r newydd am gariad a thrugaredd ein Duw. Boed i oleuni Duw lewyrchu drachefn oleuni Duw i dywyllwch ein bywydau. Ac wrth i hynny ddigwydd, beth newydd a welwn am gynllun Duw? Pa olwg newydd a gawn ar berson a gwaith ein Gwaredwr? Pa wirionedd mawr fydd yn ein llenwi â llawenydd eleni? Does wybod, wrth gwrs. Dyna ran o gyffro a dirgelwch addoli'r Mab bychan a ddaeth yn Geidwad byd. Ac am hynny, awn eto at ei grud y Nadolig hwn.

Awn eto at Iesu. Awn ato, i fyfyrio arno, i ddiolch amdano, i dderbyn ganddo, i blygu iddo ac i lawenhau ynddo.

JOHN PRITCHARD

ATEBION Y CWIS NADOLIG

Gerd Muller; 2. Leigh Halfpenny; 3. Dunblane; 4. Longchamp; 5. Ian Poulter; 6. Sir Gaerhirfryn/ Swydd Efrog; 7. Inverness Caledonian Thistle; 8. Idris Evans; 9. Peter Shilton, Billy Wright, Bobby Moore, Bobby Charlton, David Beckham, Steve Gerrard; 10. Aaron Gwyn; 11. Pêl-rwyd; 12. Neville Southall; 13. Leinster, Munster, Ulster, Leicester, Bath, Northampton, Y Wasps; 14. Glan Conwy; 15. I ddathlu agor cyfleusterau newydd ffordd Padarn; 16. Fives; 17. Rebecca Adlington; 18. Mercedes; 19. India'r Gorllewin; 20. David Vine.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'n holl gwsmeriaid ac i bawb ym mro Eco'r Wyddfa

oddi wrth

WAVELL'S
Bryn ac Angela Williams
CIGYDD
LONDON HOUSE
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 673574

PEN CIGYDD Y FRO
MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NI

Cyfeillion Gwirfoddol
ffrindia'
yng Ngwynedd
- Rhowch eich ffydd mewn ffrind -

Oes gennych chi ychydig o oriau i'w sbario?
Ydych chi yn berson cymdeithasol?
Hoffech chi wneud gwahaniaeth?
Fedrwch chi gynnig cyfeillgarwch?

Mae *Ffrindia'* angen Gwirfoddolwyr brwdfrydig i gefnogi Unigolion dros 50 oed sydd angen cwmnïaeth.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch gyda:
NIA HAF JONES
01286 685929
nia@mantellgwynedd.com

Gwynedd a Môn age Cymru

CERIS JONES
Teglan,
Stâd Talybont
LLANRUG
677362
neu symudol
07979620996

- Trwsio ceir a faniau
- Gwaith MOT
- Mecanic profiadol iawn
- Prisiau cystadleuol

Gwesty Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277

Eco Dolig 2012.indd 9 18/12/2012 09:42

Ysgol Gynradd Llanrug

Cynhaliwyd Gala Nofio'r Urdd Rhanbarth Eryri 2012 ym Mangor yn ddiweddar.

Dyma'r cystadleuwyr a ddaeth i'r brig a llongyfarchiadau mawr iddynt.

Daeth Cameron Shaw, Bl.3, yn gyntaf ar ddwy gystadleuaeth sef y dull Rhydd i Fechgyn Bl. 3 a 4 ac ar y gystadleuaeth Pili Pala. Da iawn Cameron!

Cafodd William Parry, bl.4, drydydd ar y gystadleuaeth dull Cefn i fechgyn Bl. 3 a 4.

Cafodd Sara Halliday drydydd yn y gystadleuaeth Cefn i ferched Bl 5 a 6.

Daeth y tîm cyfnewid bechgyn Bl 3 a 4 yn ail yn eu cystadleuaeth, a'r tîm cyfnewid genethod Bl 3 a 4 hefyd yn ail yn eu cystadleuaeth.

Cynhaliwyd Ffair Grefftau yn yr ysgol a bu'n llwyddiant mawr.

Diolch i Donna a'r Pwyllgor Rhieni Athrawon am drefnu i'r holl stondinau ddod i'r ffair.

Y Sefydliad Coffa Enillwyr Clwb Cant Mis Rhagfyr oedd: 1. G. Davies, Bod Dawel; 2. C. Evans, 9 Nant y Glyn; 3. G. Kirkpatrick, 4 Hafan Elan.

Bore Coffi Cynhelir Bore Coffi yn y Sefydliad Coffa ar Fore Gwener 11fed o Ionawr rhwng 10:00 a 12:00 o'r gloch gan aelodau Capel Bryngwyn a'u cyfeillion. Bydd yr elw yn mynd i gefnogi Cynllun Efe.

Llongyfarchiadau mawr i Mrs Annie Owens, 12 Corlan y Rhos, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 90 oed yn ddiweddar.

Hefyd i Beryl, Rhes Rhythallt, ar ddathlu ei phen-blwydd hithau yn 70 mlwydd oed. Pob dymuniad da a llongyfarchiadau i chwi.

Diolchiadau

Dymuna Maureen, Iona a'r teulu ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y caredigrwydd tuag atynt yn eu profedigaeth annisgwyl. Diolch i bawb am y rhoddion tuag at 'Apêl Abi' sydd yn mynd tuag at sganner symudol i Uned Geni Ysbyty Gwynedd. Diolch yn fawr.

Dymuna Beryl, Arfryn, Rhes Rhythallt, ddiolch o galon i bawb am y llu cardiau ac arian a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 70 oed yn ddiweddar. Diolch yn fawr iawn.

Hefyd, fe ddymuna Arthur a Dilys Jones, Hafan Elan, ddiolch i'r teulu, cymdogion a ffrindiau pell ac agos am eu dymuniadau da ar achlysur eu Priodas Aur. Diolch am y cardiau, blodau ac anrhegion a dderbyniwyd.

Yn anffodus, roedd Dilys yn yr ysbyty dros y cyfnod ac fe ddymuna ddiolch am y galwadau ffôn a'r cardiau a dderbyniodd. Diolch arbennig i Mrs Judith Jones, Bethel, a theulu yr Hen Ysgol, Llanddeiniolen, a alwodd am y gwasanaethau brys a bod yn gefn i Arthur ar amser o argyfwng.

Diolch hefyd i'r Parchedig Lloyd Jones ac aelodau Eglwys Sant Deiniol Llanddeiniolen am fod mor gefnogol i Arthur a Dilys. Dymunant Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

Hoffai Mrs Annie Owen (Nancy), 12 Corlan y Bont, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y llu anrhegion, cardiau a dymuniadau da a gafodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 90 oed ar 6 Rhagfyr. Diolch i bawb am eu haelioni.

Hafan Elan Cafwyd Cinio Nadolig arbennig iawn dydd Mawrth, 5ed Rhagfyr, wedi ei ddarparu gan y gegin yn Ysgol Brynrefail. Roedd pawb wedi ei fwynhau yn arw. Diolch i Staff y Cantîn am ddarparu cinio bob wythnos. Cafwyd canu carolau i ddilyn, gyda Mair Huws wrth yr organ.

Dydd Gwener roedd Bessie Costello, y Warden, gyda'r gwirfoddolwyr Sylvia, Mair, Anwen, Marilyn ac Eryl wedi darparu gwledd i bawb. Cafwyd bwffe hynod o dda ac i ddiweddu'r prynhawn cafwyd adloniant gan Gôr Noddfa, Caernarfon, gyda charolau a chaneuon poblogaidd.

Diolchwyd i'r Côr ac am gefnogaeth pawb arall gan Bessie Costello a Mair Huws.

(Bydd lluniau o'r hwyl yn y rhifyn hesaf)

Gwaeledd Deallwn fod Mrs Megan Pritchard, Golygfa, Bryn Moelyn, wedi bod yn wael yn Ysbyty Gwynedd ers rhai wythnosau. Dymunwn wellhad buan ichwi.

Profedigaethau

Trist iawn yw cofnodi marwolaeth Eileen Davies, Llys Alaw, Ffordd yr Orsaf, yn 71 mlwydd oed. Ni fu yn cwyno yn hir ac felly roedd yn sioc fawr i'w theulu a'r pentrefwyr i gyd. Bu Eileen yn wirioneddol ofalus a charedig o'i gŵr, Tom Alun, sydd yn awr yn trigo yng Nghartref Maesincla.

Fe anfonwn ein cofion diffuant iawn at Tom, Sharon ac Anwen; Brian, ei mab yng ngyfraith; Donna, Carl, Emma, Gavin a Gwennan, ei wyrion a wyresau ac Anna Fflur, ei gor-wyres fach. Hefyd y teulu a'i ffrindiau i gyd.

Hefyd cofiwn at Eirlys Williams, Y Berllan, ar' teulu yn eu profedigaeth sydyn o golli chwaer annwyl yn Llundain. Cydymdeimlwn yn ddiffuant â chwithau hefyd.

Cyfarchion Am nad yw yn anfon cardiau eleni, dymuna Mrs. Naomi Griffith,11 Hafan Elan Nadolig Llawen iawn a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu a'i ffrindiau.

PLAID CYMRU LLANRUG
NOSON SANTES DWYNWEN
Yn y 'Caban' Brynrefail
Nos Wener, Ionawr 25ain
am 7.30
Os hoffech archebu bwrdd i chi a'ch ffrindiau cysylltwch â Nan (675668) Meirwen (675359) neu Phyllis (870237)
(Bwrdd ar gyfer 4 neu 6 person)
BWFFE, ADLONIANT a DIGON O HWYL
£15 y person

ARVONIA
COACHTOURISM cpt
- Gwyliau Prydeinig a Chyfandirol.
- Rhaglen Tripiau Dyddiol.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Cerbyd 7 ac 14 sedd ar gael ar gyfer teithwyr maes awyr ac ar gyfer logi preifat.
- Adran teithiau grwp – yr holl drefniadau wedi'u gwneud: archebiadau gwesty a llong, teithiau, archebiadau theatra digwyddiadau

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA
Ffôn: 01286-675175 • Ffacs: 01286-671126
E-bost: info@arvonia.co.uk • Gwefan: www.arvonia.co.uk



J.M. JONES
a'i Feibion
LLANRUG
Gwaith Coffaol
Ffon Gwaith
01286 672898
Cartref
01248 679089
Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Eco Dolig 2012.indd 10 18/12/2012 09:42

Canlyniadau Eisteddfod Pentrefi Llanrug a Chwmyglo 2010

Canlyniadau Llwyfan: Unawd Dosbarth Derbyn: 1af Ifan; 2il Betsan; 3ydd Fflur; Llefaru Unigol Dosbarth Derbyn: 1af Ifan; 2il Betsan; 3ydd Fflur; Unawd Blwyddyn 1 a 2: 1af Caio Siôn; 2il Alaw Angharad; 3ydd Buddug; Llefaru Unigol Blwyddyn 1 a 2: 1af Erin Gibbard; 2il Twm Brooks; 3ydd Osian; Grŵp Dawnsio Disgo Blynyddoedd 1 a 2: 1af Grŵp Rapsgaliwn; Grŵp Dona Direidi; Côr Babanod hyd at flwyddyn 2: 1af Côr Llanrug; Unawd Blwyddyn 3 a 4: 1af Tomi; 2il Nel; 3ydd Mared; Llefaru Unigol Blwyddyn 3 a 4: 1af Deian; 2il Tomi; 3ydd Mali; Llefaru Unigol Blwyddyn 5 a 6: 1af Leisa; 2il Molly; 3ydd Eleri; Unawd Blwyddyn 5 a 6: 1af Leisa; 2il Iwan; 3ydd Eleri; Unawd Offerynnol Cynradd: 1af Erin Gibbard; 2il Rhydian; 3ydd Iwan; Deuawd Cynradd: 1af Tomi a Leisa; Grŵp Dawnsio Disgo Blynyddoedd 3, 4, 5 a 6: 1af Grŵp Elain; 2il Angylion y Stryd; 3ydd Divas Roc; Parti Dawns Werin Cynradd: 1af Parti Gwion; 2il Parti Guto; Parti Llefaru Cynradd: 1af Parti Del; 2il Parti Bo; 3ydd Parti John Tŷ Pot; Parti / Côr Unsain Cynradd Blynyddoedd 3 – 6: 1af Côr Dwisho Dwisho; Llefaru Unigol Uwchradd: 1af Beca; 2il Miriam; 3ydd Math; Unawd Uwchradd: 1af Anna; 2il Rhodri Llŷn; 3ydd Gwern; Unawd Offerynnol Uwchradd: 1af Math; 2il Deian; 3ydd Gethin; Deuawd Uwchradd: 1af Llio ac Anna; 2il Mari a Hanna; Grŵp Dawnsio Disgo Uwchradd: 1af Grŵp Lisa; Parti Dawns Werin Uwchradd: 1af Parti Ceiliog; Sgets Uwchradd: 1af Y Ffobias; 2il Criw y Radio; Cyd. 3ydd Sgets yr Arolwg a Genod y Tils; Parti Llefaru Uwchradd: 1af Parti Ceri; 2il Parti Llio; Cân Ysgafn/Grŵp Pop Uwchradd: 1af Parti Nain; 2il Grŵp Rhodri; Parti / Côr Uwchradd / Agored: 1af Côr Brynrefs.

Enillwyr y Tlysau Llwyfan: Cadair Lowri i Enillydd yr Unawd ym Mlynyddoedd 1 a 2: Caio Siôn; Cwpan W. Park Jones am y Cyflwyniad Llefaru / Llafar Gorau (Cynradd): Deian; Tlws Bwlchgrwnog am y Perfformiad Cerddorol Cynradd Gorau: Leisa Gwenllian; Tlws Er Cof am Eddie a Moreen Lennon am y Perfformiad Cerddorol Uwchradd Gorau: Math Roberts; Rhodd Haf Roberts i'r Cyflwyniad Llefaru / Llafar Gorau (Uwchradd): Beca Llwyd.

Canlyniadau Llen:

Blwyddyn 3 a 4: 1af Elis Edwards; 2il Tomi Llywelyn; 3ydd Mared Roberts.

Blwyddyn 5 a 6: 1af Rhydian Williams; 2il Eleanor Edwards Jones; Cyd 3ydd Alice Chisholm ac Abigail Hughes.

Blwyddyn 7: 1af Miriam Catrin.

Blwyddyn 8 a 9: 1af Math Roberts; 2il Osian Edwards; 3ydd Ceri Griffiths.

Blwyddyn 10 ac 11: 1af Mared Lois Williams; 2il Beca George; 3ydd Sian Williams.

Blwyddyn 12 ac 13: 1af Anna Wyn Jones; 2il Elain Sian Roberts; 3ydd Ffion Erin Williams.

Tlws yr Ifanc: 1af Math Roberts; 2il Osian Edwards; 3ydd Ceri Griffiths.

Cystadleuaeth Y Gadair: 1af Anna Wyn Jones; 2il Elain Sian Roberts; 3ydd Ffion Erin Williams.

Anna W.Jones a Math Roberts

Anna gyda Chwpan Emma Bernard.

Beca Llwyd

Caio Sion gyda Chadair Lowri

Leisa Gwenllian gyda Thlws Bwlchgrwnog

Math gyda Thlws er cof am Eddie a Moreen Lennon

Deian gyda Cwpan W.Park Jones

Eco Dolig 2012.indd 11 18/12/2012 09:42

ARLUNIO

Pob oedran: Unrhyw waith yn seiliedig ar:
- Glan y Môr
- Coedwig
- Tywydd
- Ffermio

Arlunio Meithrin
1. Sioned Hughes
2. Llion John Rees Williams
3. Morgan Rowlands
a Sion Owain Williams

Arlunio Derbyn
1. Ifan Morris
2. 'Pinc' - Ysgol Cwm y Glo
3. Guto Ewart Parry

Arlunio - Blwyddyn 1
1. Beca Mair
2. Luned Llwyd
3. Alaw Hughes

Arlunio – Blwyddyn 2
1. 'Afal' - Ysgol Cwm y Glo
2. Osian Llyfni
3. Erin Gibbard
a Beca Fôn Parry

Arlunio - Blwyddyn 3
1. Aled Huw Jones
2. Iolo Morris
3. Mared Llwyd

Arlunio Blwyddyn 4
1. Cari Wyn Pritchard
2. Deian Llyfni
3. Elin Daniel Parry

Arlunio – Blwyddyn 5
1. Guto Whiteside Thomas
2. Elliw Morris
3. Osian Eifion Land

Arlunio Blwyddyn 6
1. Anna Whiteside Thomas
2. Iwan Llyr Griffiths
3. Elain Ellis
ac Owain Cynfab Roberts

Arlunio - Blwyddyn 7 ac 8
1. Osian Wyn Parry Evans
2. Ceri Fflur Griffiths
3. Gethin Wyn Jones
a Sion Eifion Land

Arlunio - Blwyddyn 9 a 10
1. Neb yn cystadlu

Arlunio - Blwyddyn 11, 12 ac 13
1. Anna Wyn

Cwpan Emma Bernard i'r arlunydd gorau.
Anna Whiteside Thomas

DYLUNIAD CYFRIFIADUROL

Pob oedran: Unrhyw waith yn seiliedig ar:
- Glan y Môr
- Coedwig
- Tywydd
- Ffermio

Dyluniad Cyfrifiadurol Adran Babanod
1. Erin Gibbard
2. Beth Whiteside Thomas
3. 'Enfys' a 'Glaw' Ysgol Cwm y Glo

Dyluniad Cyfrifiadurol Adran Iau
1. Osian Eifion Land
2. Cian Gibbard
3. Anna Whiteside Thomas

Dyluniad Cyfrifiadurol Oedran Uwchradd
1. Sion Eifion Land
2. Osian Wyn Parry-Evans
3. Gethin Wyn Jones

TRI DIMENSIWN
Tri Dimensiwn Meithrin / Derbyn (Mwgwd)
1. Morgan Rowlands
2. Guto Ewart Parry
3. Sioned Hughes a Fflur Lloyd Jones

Tri Dimensiwn Blwyddyn 1 a 2 (Tusw o flodau ffug)
1. Beca Fôn Parry
2. Luned Llwyd
3. Alaw Angharad Hughes

Tri Dimensiwn Blwyddyn 3 a 4 (Collage o'r Gaeaf)
1. Gwennan Brooks
2. Mali Brooks a Mared Llwyd
3. Aled Huw Jones

Tri Dimensiwn Blwyddyn 5 a 6 (Ffrâm Llun)
1. Guto Whiteside Thomas
2. Anna Whiteside Thomas
3. Gwion Rhys Parry Evans

Tri Dimensiwn Oedran Uwchradd (Calendr Adfent)
1. Gethin Wyn Jones
2. Miriam Catrin
3. Llinos Elin Roberts a Robin Whiteside Thomas

TECSTILIAU

Tecstiliau Adran Babanod (Unrhyw eitem allan o bom-poms)
1. Beca Fôn Parry a Beth Whiteside Thomas
2. Twm Brooks, Mared Enlli, Erin Gibbard, Sioned Hughes, Fflur Lloyd Jones, Beca Mair, Guto Ewart Parry
3. Catrin Beech ac Alaw Angharad Hughes

Tecstiliau Adran Iau (Unrhyw eitem ar y thema Môr Ladron/ sampl o bwyth croes)
1 Gwion Rhys Parry Evans
2. Anna Whiteside Thomas

Tecstiliau Oedran Uwchradd (Crys-T)
1. Teleri Medi Jones
2. Llinos Roberts
3. Gethin Wyn Jones

Tecstiliau Agored (Unrhyw eitem)
1. Neb yn cystadlu

COGINIO

Coginio Meithrin /Derbyn (Addurno 6 cacen fach)
1. Ynyr Gwilym ac Ifan Morris
2. Sioned Hughes, Fflur Lloyd Jones a Guto Ewart Parry
3.

Coginio Blwyddyn 1 a 2 (6 bisged)
1. Beca Fôn Parry
a Beth Whiteside Thomas
2. Alaw Hughes
3. Luned Llwyd

Coginio Blwyddyn 3 a 4 (Pitsa)
1. Nel Pennant Jones a Mared Llwyd
2. Enlli Lloyd Jones, Elin Daniel Parry a Cari Wyn Pritchard

Coginio Blwyddyn 5 a 6 (Myffins)
1. Cian Gibbard a 'Jay Jay' Bl 6 Ysgol Cwm y Glo
2. Gwion Rhys Parry Evans a Anna Whiteside Thomas
3. Owain Cynfab Roberts

Coginio Blwyddyn 7,8 a 9 (Tryffls mewn bocs)
1. Teleri Medi Jones, Efa Lewis Roberts a Robin Whiteside Thomas
2. Sion Eifion Land
3. Miriam Catrin, Osian Wyn Parry Evans a Gethin Wyn Jones

Coginio Blwyddyn 10,11,12 a 13 (Cacen Foron)
1. Neb yn cystadlu
Coginio Agored – Merched (Tarten Meringue Lemon)
1. Rhian Thomas
2. Catrin Thomas
3. Eirianwen Thomas

Coginio Agored – Dynion (Te bach i ddau)
1. Dafydd Whiteside Thomas

Coginio Agored Jam/ Marmalêd
1. Eirianwen Thomas a Teleri Medi Jones
2. Teleri Medi Jones

Coginio Agored 'Gwirod Cartref'
1. Eirianwen Thomas

Coginio Taffi
1. Leia Nel Williams

GOSOD BLODAU

Gosod Blodau Agored (Addurn Canol Bwrdd ar gyfer y Nadolig)
1. Mair Parry
2. Megan Wyn Pritchard
3. Meirwen Lloyd

FFOTOGRAFFIAETH

Ffotograffiaeth (Unrhyw lun ar y thema Glan y Môr, Coedwig, Tywydd, Ffermio
1. Osian Eifion Land
2. Eleanor Bl 6 Ysgol Cwm y Glo
3. Iolo Morris
ac Anna Whiteside Thomas

Eco Dolig 2012.indd 12 18/12/2012 09:42

MERCHED Y WAWR

Nos Fawrth, Rhagfyr 11, aeth llond bws o aelodau i ddathlu'r Nadolig yng Nghlwb Golff Caernarfon. Roedd aelodau Cangen Caernarfon yno hefyd a chafwyd noson braf a chymdeithasol. Estynnwyd croeso i'r ddwy gangen gan Mair Huws, Llywydd Llanrug a chan Alwena Lewis, Llywydd Cangen Caernarfon. Roedd Alwena wedi paratoi cwis Carolau ac fe gafwyd hwyl yn dyfalu enwau'r Carolau a oedd wedi'u hysgrifennu heb y llafariaid!

Cafwyd cyfle i ddymuno pen-blwydd hapus iawn yn 103 i Mrs Kitty Roberts o Gangen Caernarfon a hi a Helen Gwyn enillodd raffl Cangen Caernarfon. Enillwyr Cangen Llanrug oedd Menna Williams a Meirwen Lloyd.

Yn ôl y disgwyl cafwyd gwledd a fwyd a phawb wedi mwynhau tri chwrs, gyda diolch i Enid a'r staff. Diolchir hefyd i Linda ac Olwen am ofalu fod pawb yn sicr o'u bwydlen – cafodd pob un gerdyn Nadoligaidd cywrain yn ein hatgoffa, ynghyd â rhif raffl.

Ar Ionawr 8fed cawn gwmni Ffion Williams gyda noson o Swmba a fydd yn gymorth i gael gwared o'r floneg wedi'r Nadolig.

Dymunwyd Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Fendithiol i'r ddwy gangen.

Capel y Rhos Fore Sul, Rhagfyr 9fed, bedyddiwyd Elain Grug gan y gweinidog y Parch Marcus Wyn Robinson. Mae'n ferch fach i Michelle a Dafydd sy'n byw ym Mharc Muriau Caernarfon. Pob bendith i'r teulu bach.

Apêl Guatemala Diolch i bawb ddaeth i Hafan, Ffordd Glanmoelyn, fore Mawrth, Rhagfyr 4ydd, i gefnogi'r bore coffi tuag at yr uchod. Gwerthfawrogwyd hefyd y rhoddion hael tuag at y raffl a'r bara brith a'r bisgedi. Gwnaed elw anrhydeddus iawn o £200 a bydd hyn yn cael ei drosglwyddo i'r apêl yn enw Capel y Rhos.

Cynhelir Gwasanaeth Nadolig yr Ysgol Sul ar Nos Iau, Rhagfyr 20fed am 6 o'r gloch.

Os oes rhywun angen cludiant i lawr i'r capel, cysylltwch ag un o'r swyddogion os gwelwch yn dda.

Pêl Bonws Cylch Meithrin Dyma enillwyr y tair wythnos ddiwethaf: Tachwedd 24 (rhif 37) Anwen Owen; Rhagfyr 1 (rhif 1) Linda Jones; Rhagfyr 8 (rhif 27) Elliw a Lleucu. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Dymuna Pwyllgor Eisteddfod Pentrefi Llanrug a Chwm y glo ddiolch i'r canlynol am noddi'r eisteddfod eleni:
Cyngor Cymuned Llanrug; Cangen Llanrug o Ferched y Wawr; Gwynfa Pritchard (Llefrith); J.M.Jones; Cwmni Arvonia; Y Dyn Cig; Edgar a Pat, Y Post; Siop Londis; Siop Wavell's.

Dyma'r ysgrif ennillodd y gadair i Anna W. Jones yn Eisteddfod Pentrefi Llanrug a Chwm y Glo.

Dwylo

Gafaelodd yn ei llaw hi, plethodd ei fysedd rhwng ei rhai hithau, eu dwylo ynghlwm. Roedd ei lygaid mawrion glas, annwyl yn syllu i mewn i'w henaid ac am eiliad roedd hi'n hapus. Diflannodd y boen. Roedd y byd i gyd yn llonydd, dim ond fo a hi oedd yno yn sefyll yng nghanol y neuadd. Roedd y gerddoriaeth yn chwarae yn y cefndir, pob nodyn yn ei le yn creu alaw o liwiau o'u cwmpas. Disgleiriodd y sêr uwchben yn creu nenfwd o olau meddal. A gwenodd y lloer arnynt, y ddau fach i lawr ar y ddaear mewn swigen o berffeithrwydd.

Ond yna daeth fflach o olau llachar i'w dallu. Daeth ei llygaid i arfer â'r golau newydd hwn, ac wrth eu hagor sylweddolai ei bod yn ôl yn ei hystafell. Yn ôl i fywyd go iawn.

"Deffra'r hen ast fach, mae bywyd yn galw."

Atseiniodd y geiriau sur yn ei chlustiau a chododd o'r gwely. Syllodd yn y drych. Syllodd ar ei gwallt tywyll yn glymau i gyd, a'r graith fechan uwchben ei gwefus. Byseddodd y graith yn ysgafn. Doedd hi ddim yn anodd cofio'r diwrnod hwnnw, ond erbyn hyn llwyddai i wthio rhai meddyliau i gefn ei meddwl a chadw'r rhai da yn y blaen. Adeiladu'r pethau da a chreu wal. Wal denau.

Doedd gan Gwenan mo'r bywyd hawsaf a'i thad yn unig riant. Bu farw ei mam mewn damwain car a hiraethai ei thad yn ofnadwy amdani. Roedd o'n ei ffeindio yn anodd i fagu Gwenan ei hun a chydymdeimlodd Gwenan ag o. Deallai ei alar. Ond doedd bywyd ddim yn hunllef i gyd. Mae rhan fwyaf o blant un ar bymtheg yn casáu'r ysgol, ond nid oedd Gwenan yn un o'r "rhan fwyaf o blant" hynny. Yn yr ysgol roedd pethau ychydig yn well, doedd dim angen poeni am gartref. Gallai hi ganolbwyntio ar y gwaith, a gweld Harri.

Y bore hwnnw aeth i'r ysgol fel pob bore arall, ar stumog wag, a'i meddwl yn gyffro i gyd. Wrth gyrraedd y giatiau haearn sylwodd ar wallt brown Harri, ei wên, ei lygaid, ei ddwylo. Ei ddwylo yn chwifio'n hyderus arni. Chwifiai yn ôl. Roedd popeth yn iawn. Roedd hi wedi camu ar yr iard, roedd Harri yno. Roedd bob dim yn iawn.

Crynodd ei dwylo wrth iddo nesáu ati,

"Iawn?" gofynnodd yn ddifeddwl.

"Yndw diolch," atebodd gan wenu. "Ti?"

"Grêt sdi."

Tarfodd y gloch arnynt, a heliodd yr athrawon y disgyblion i mewn fel cŵn defaid yn hel defaid i'r gorlan. Gwibiodd y gwersi heibio gyda llaw dde Gwenan yn brifo ar ôl ysgrifennu am nofel, cerdd, atomau a phopeth arall. Doedd y gwaith ddim yn rhy anodd, gwneud y gwaith cartref oedd waethaf. Trio canolbwyntio ar y gwaith ac nid arno fo lawr grisiau. Doedd neb ddim wir yn gwybod ei bod hi weithiau yn anodd adref. Doedd neb wedi gwneud yr ymdrech i ffeindio allan chwaith. Doedd neb yn gwneud yr ymdrech i siarad efo Gwenan o gwbl a dweud y gwir, dim ond Harri. Roedd y genethod yn edrych i lawr arni braidd, ac yn syllu ar y graith ambell waith. Felly doedd Gwenan ddim yn ymdrechu i siarad yn ôl, doedd dim pwynt. Cadw e'i hun at ei hun oedd orau.

Buan iawn daeth hi'n hanner awr wedi tri. Diflannodd y wen o wyneb Gwenan wrth iddi ffarwelio â Harri. Roedd Gwenan yn byw i Harri, i glywed ei lais yn dweud helo, i'w weld yn chwerthin gyda'i ffrindiau, i deimlo ei ddwylo cynnes yn gafael yn ei llaw..... ond breuddwyd oedd hynny. Ffrindiau oedden nhw wedi'r cyfan, dim byd mwy. Er y buasai Gwenan yn rhoi ei byd i gael Harri i afael yn ei llaw a sibrwd yn ei chlust, "Mae popeth yn iawn. Mi fydd popeth yn iawn."

Agorodd Gwenan ddrws ffrynt ei thŷ. Doedd popeth ddim yn iawn, roedd hi wedi camu dros y rhiniog, doedd bob dim ddim yn iawn. Roedd hi'n dawel yn y tŷ, yr un fath â phob diwrnod tan bump o'r gloch. Roedd gan Gwenan awr ac ugain munud ar ôl. Gafaelodd yn ei bag a rhedodd i fyny'r grisiau gwichiog. Estynnodd ei gwaith a dechrau ysgrifennu.

Pump o'r gloch. Gwrandawodd yn astud am law yn ymestyn am ddolen y drws ffrynt. Dychmygai'r dwylo a'r gwinedd melyn, dychmygodd yr esgidiau du yn crafu yn erbyn y mat.

"Clic"

Roedd o wedi cyrraedd adref.

"Gwenan! Tyrd yma'r eiliad yma!"

Cododd Gwenan ar ei thraed, anadlodd yn drwm wrth i'w llaw droi dolen ei drws. Brasgamodd i lawr y grisiau.

"Gwna goffi i mi."

Roedd ei lygaid yn goch a'i ddwylo yn ddyrnau caled wrth ei ochr. Ni ddywedodd Gwenan air, feiddiai hi ddim, dim ond gafael yn y twb coffi ac estyn y jwg llefrith o'r frij.

"Tyrd yn dy flaen dwi isio panad!"

Roedd y llais yn gymaint o sioc nes gollyngodd Gwenan y jwg ar y llawr. Rhewodd. Torrodd yn deilchion. Llyncodd ei phoer.

"Be ar wyneb daear wyt ti'n feddwl wyt ti'n 'neud?!"

Syllodd y llygaid mawrion coch, gwallgo' i mewn i enaid Gwenan. Agorodd y dwrn. Cododd y fraich.

Cafodd ei thaflu i'r llawr gan bŵer y llaw. Edrychodd i fyny i weld y dwylo yn ôl mewn dyrnau caled ar esgidiau duon yn troi i ffwrdd. Anadlodd allan, ac ymlaciodd ei meddwl.

"Cliria'r llanast yma. Reit sydyn."

Straffagliodd i'w thraed. Ei dwylo yn oer, ond yn wlyb gan chwys. Roedd ei hwyneb yn boeth. Heliodd y darnau mân yn ei dwylo a sychodd ei thalcen. Roedd gwaed ar ei dwylo. Ond methodd â ffeindio o ble roedd y gwaed yn dod. Ai wedi torri ei bysedd ar y jwg oedd hi? Yntau gwaed o'i hwyneb oedd o?

Rhoddodd y darnau mân yn y bin sbwriel. Pam? Eto heno, dim ond un diwrnod o heddwch oedd angen. Gallai faddau iddo. Ond roedd hi'n anodd pob diwrnod. Pob diwrnod, pam? Yna cerddodd drwy'r cyntedd ac agorodd y drws ffrynt. Safai yno yn stond, ei dwylo hithau yn ddyrnau caled erbyn hyn. Llifodd atgofion am ei mam i'w meddwl, daeth darlun ohoni yn edrych yn siomedig ar Gwenan. Methodd a chamu allan. Er cymaint y roedd hi eisiau. Methodd. Llaciodd ei dwylo a throi yn ôl. Daeth gwen i wyneb ei mam. Caeodd y drws â'i dwylo gwaedlyd.

Eco Dolig 2012.indd 13 18/12/2012 09:42

Operation Christmas Child / Ymgyrch Plentyn y Nadolig

Mr Wyn Owen, Operation Christmas Child/Ymgyrch Plentyn y Nadolig, yn cyrraedd Ysgol Brynrefail dydd Mercher 21ain Tachwedd 2012 i nôl 301 o focsys wedi eu casglu gan ddisgyblion yr ysgol a fydd, eleni, yn mynd i wlad Bosnia.

Trefnwyd ac arweiniwyd ymdrech yr Ysgol gan Kelsey Collins a Heddwen Williams, y ddwy ym mlwyddyn 12, gasglodd, nid yn unig 44 o focsys eu hunain ond hefyd rhoddion o £100 tuag at yr achos.

Er ein bod ym Mrynrefail yn falch o'r fraint o fod yn rhan o'r ymdrech yr ydym hefyd yn falch ofnadwy am ddygnwch ac ymrwymiad Heddwen a Kelsey i sicrhau cyfanswm teilwng.

Genod Brynrefs – da 'de

Tîm Pêl-droed Bechgyn dan 18

Ar bnawn Iau, 29ain Tachwedd 2012, a'r cae wedi dadmer digon i gynnal yr ornest, cyrhaeddodd Ysgol Dyffryn Conwy er mwyn chwarae gêm Gwpan Eryri yn erbyn y tîm cartref.

Er perfformiad hanner cyntaf di-gyswllt aeth tîm Bryrefs i'r egwyl yn curo 1-0 trwy gôl Osian Kingston~328 a gôl geidwad y tîm cartref, Armando Morgan, heb ei flino o gwbl.

Ond cafwyd stori wahanol yn yr ail hanner wedi i'r hyfforddwr, Mr Phil Holland, feirniadu'r perfformiad yn ystod yr egwyl.

Cafwyd perfformiad pwerus a phob aelod, yn cynnwys yr eilyddion, yn chwarae eu rhan. Ychwanegwyd goliau gan Iolo Hughes (2) a Josh Robinson (2) ac er ildio gôl gysur cafwyd buddugoliaeth o 5-1 a hedfan i'r rownd nesaf.

Eco Dolig 2012.indd 14 18/12/2012 09:42

"Y byd i'n disgyblion a disgyblion i'n byd"

Arlwy'r Eisteddfod

Criw o'r chweched fu'n rhan o Brosiect Ymchwil yr Eisteddfod Genedlaethol ar yr 22ain Tachwedd 20112. Yn y llun gwelir y criw gyda Llyr Siôn, cyn ddisgybl ac aelod o Fwrdd yr Eisteddfod genedlaethol a Gwenllian Carr, Pennaeth Cyfathrebu'r Eisteddfod Genedlaethol. Roeddent yn trafod arlwy'r eisteddfod ar gyfer pobl ifanc a derbyniwyd e-bost yn ei ganlyn yn eu canmol yn arw ac yn dweud eu bod yn adlewyrchu'n dda iawn ar yr ysgol
Criw Brynrefs – da de!

Patagonia

Gwen Thomas, Erin Ynyr, Elin Tomos a Huw Owen, myfyrwyr chweched dosbarth Ysgol Brynrefail, sydd wedi eu dethol gan yr Urdd i gynrychioli'r gyfundrefn yn ystod prosiect pythefnos yn yr Ariannin.
Fe fyddant yn gweithio ym Mhatagonia ac yn cefnogi ysgolion a mudiadau gyda datblygiad parhaus yr iaith Gymraeg.
Bydd eu gwaith yn diweddu gyda chefnogaeth o Eisteddfod y Wladfa, achlysur blynyddol ers i'r gwladgarwyr cyntaf lanio ar y traethau yno.
Ond er mwyn cyrraedd eu nod bydd yn rhaid i bob un ohonynt gasglu £2,500 ac mi fedrwch chi, yn unigolion, cymdeithasau a chwmnïau gynorthwyo trwy yrru eich rhoddion i'r Ysgol a diolch o flaenllaw am hynny.
Criw Brynrefs –da'de

Cadeaux de Mystere

Bu rhai aelodau o'r cwmni 'Cadeaux de Mystere', Menter yr Ifanc (grwp Astudiaethau Busnes Blwyddyn 10) yn gweinyddu stondin ynghanol Ganolfan Deiniol, Bangor ar ddydd Sadwrn, 1 Rhagfyr 2012. Buont yn gwerthu nwyddau yno rhwng 10am-2pm o dan ofal Ms Marian Roberts (a rhai o'r rhieni) a threfnydd Menter yr Ifanc ,Mr Selwyn Griffiths. Bu stondinau ysgolion / colegau eraill yno hefyd yn cystadlu gyda ni.

Helpwyr Bach Santa

Mae'r Goeden Nadolig wedi ei gosod gan helpwyr bach Santa. Does dim ar ôl ond dymuno, ar ran teulu Brynrefail, 'Nadolig Llawen iawn a dymuniadau gorau oll am Flwyddyn Newydd Ddedwydd' i bawb o ddarllenwyr Eco'r Wyddfa.

Eco Dolig 2012.indd 15 18/12/2012 09:42

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl drigolion y pentref a phentrefi eraill ardal yr Eco.

Dymuna Mrs Margaret Cynfi Griffith ddiolch i'w holl gyfeillion a'r teulu am y cardiau a'r rhoddion hael a gafwyd ar achlysur ei phen-blwydd arbennig yn ddiweddar. Rhoddir y rhoddion a gafwyd tuag at Apêl Cymorth Cristnogol.

Gŵyl Deiniolen a'r Cylch Cafwyd noson lwyddiannus yn ddiweddar pan roddwyd goleuadau Nadolig y pentref ymlaen. Cafwyd adloniant gan y Band a Lleisiau Llanbabs, a rhannwyd lluniaeth i'r gynulleidfa gan staff Y Bull a'r Wellington. Diolch i bawb a gefnogodd. Yna i ddilyn cafwyd noson yng nghwmni'r grŵp Celt yng Nghlwb Cymdeithasol Llanberis. Diolchir eto i bawb a gefnogodd. Yn ddiweddarach cafwyd disgo Nadolig ac ymweliad gan Siôn Corn yn Nhŷ Elidir i'r plant lleiaf. Roedd hyn eto yn llwyddiannus a diolch i'r rhai a gefnogodd. Ar Ragfyr 16 mi fydd Siôn Corn yn dychwelyd i'r pentref pan fydd yn trafaelio o amgylch yr ardal i ddymuno Nadolig Llawen i bawb.

Llifogydd Tachwedd Cafwyd cryn ddifrod yn y pentref a'r ardal yn dilyn glaw trwm mis Tachwedd. Yn anffodus, dioddefodd nifer oherwydd dŵr yn llifo i mewn i'w tai. Estynnwn ein cofion at bawb sydd wedi dioddef. Fe welir yr effaith yn amlwg hyd heddiw gan fod nifer o ffyrdd a llwybrau yn dal i ddangos ôl y llif, a'r gwaethaf ohonynt yw'r difrod a wnaed i'r hen bont ar waelod Lôn Garnedd. Gobeithio y gellir ei thrwsio yn fuan ac y bydd y Cyngor yn sicrhau y bydd y llwybrau hefyd yn cael eu trwsio ar gyfer eu defnyddio unwaith eto.

Ysgol Sul Undebol Mae plant yr Ysgol Sul yn cynnal gwasanaeth Nadolig ar fore'r 16eg. Er mai criw go fychan sydd yn mynychu maent wedi bod yn hynod o weithgar a ffyddlon ac wedi dangos brwdfrydedd tuag at y gweithgareddau a gafwyd trwy gydol y flwyddyn. Diolch yn fawr i chi i gyd.

Ysgol Gwaun Gynfi

Clwb Cant Mae enillwyr y misoedd diweddar fel a ganlyn:
Medi: 1. Tony Pleming, Bwthyn Gwyn; 2. Joy Thomas, London House; 3. Sian Roberts, Ysgol Gwaun Gynfi.
Hydref: Valmai P. Williams, Rhes Faenol; 2. Alison Jones, Plas Rhiw; 3. Dewi Wyn Williams, Hafol Oleu.
Tachwedd: Donna Jones, Awelon; 2. Mandy Owen, London House; 3. Norman Roberts, Llangefni.
Rhagfyr: 1 Mandy Owen, London House; 2. Ffion Jones, Rhiw Goch; 3. Meirion Jones, Minafon.
Dymuna Mrs Meira Rowlands, 17 Rhydfadog, ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu, cymdogion a ffrindiau oll gan na fydd yn anfon cardiau Nadolig eleni.

Cofio Wyn Parry

Ar drothwy y Nadolig cofiwn am uno feibion ein bro, sef y diweddar Wyn Parry, mab hynaf Emlyn ac Edith Parry (Tan-y-foel gynt) a 19 Pentre Helen, Deiniolen. Roedd Wyn yn frawd i Alan sydd yn dal i fyw yn y cartref ym Mhentre Helen.

Cafodd Wyn ei addysg yn ysgolion Pen-y-Bryn a Dyffryn Ogwen, Bethesda, lle roedd cartref cyntaf y teulu. Yn ddeunaw oed aeth Wyn i'r Awyrlu i wneud ei Wasanaeth Cenedlaethol a phasio fel peilot, wedyn ymlaen i'r Coleg Normal ym Mangor i'w hyfforddi fel athro. Ymlaen wedyn i Goleg Loughborough i ganolbwyntio ar ei waith coed a metel.

Ar ôl priodi â Myra, a chael dau fab, ymgartrefu yn Yr Wyddgrug a dod yn athro yn Ysgol Uwchradd Dinbych ac Ysgol Morgan Llwyd ac wedyn i Ysgol Maes Garmon. Tra yn ysgol Maes Garmon adeiladodd Wyn nifer o delynau i ddosbarth 6 (mae darlun ohono gyda'r telynau).

Yn ei oriau hamdden treuliodd Wyn oriau yn gwneud tapiau i'r deillion a'r rhannol ddall dan enw Sain Clwyd. Mae ei frawd, Alan, wedi gwneud yr un math o waith yn ei oriau hamdden gyda Radio Ysbyty Gwynedd. Treuliodd Alan ddeuddeng mlynedd yn rhoi llawer o bleser i'r cleifion gyda cheisiadau a chyfarchion ar y radio. Mae Alan yn awr wedi ymddeol ac yn cael pleser ar bwyllgorau Cartrefi Cymunedol Gwynedd (CCG)

Roedd Wyn yn ysgrifennydd Eglwys Pendref, Yr Wyddgrug, ac hefyd wedi rhoi blynyddoedd o wasanaeth i fudiad Yr Urdd yn ardal Dinbych a Fflint, lle byddai yn beirniadu gwaith coed a metel.

Pan gai amser i ymlacio byddai'n treulio amser yn pysgota gyda'i ffrind agosaf, sef Norman Closs Parry, Treffynnon, gynt o'r Fachwen.

Tristwch mawr oedd y newyddion am golli Wyn. Cydymdeimlwn â'i wraig, Myra, y ddau fab a'u teuluoedd a hefyd ei frawd, Alan. Daeth tyrfa fawr i'r angladd ym mis Gorffennaf yn Amlosgfa Pentre Bychan, Wrecsam. Bu'n golled fawr i'r teulu ac ardal yr Wyddgrug.

Diolchwn bod dau frawd, Wyn ac Alan, wedi dod â phleser i'r deillion a chleifion y ddwy ardal yn y modd arbennig hwn.

ECO'r Wyddfa
Cefnogwch ein hysbysebwyr

H.E. HUGHES
A'I FEIBION
Bwthyn Gadlys
LLANBERIS
Ffôn: 870444
★ Gwerthwr Glo
★ Olew Gwres Canolog
i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

Problem gyda'ch cyfrifiadur?
Am wasanaeth cyfeillgar i ddatrys a gwella eich cyfrifiadur cysylltwch â Gomer Roberts
Ffôn : 01286 870462
Symudol : 07962 712368
Cymorth a hyfforddiant amyneddgar i bob oedran er mwyn i chi fedru mwynhau defnyddio eich cyfrifiadur!

CHIROPODYDD
GALWADAU I'R CARTREF
RICHARD THOMAS SRCh/HPC
Cysylltwch- Symudol 0797 631 6487 • Tŷ 01758 612384

Eco Dolig 2012.indd 16 18/12/2012 09:42

Diolch Dymuna Ann, Tmothy, Sandra, Dale a'r teulu ddiolch i bawb am eu caredigrwydd ac am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli Glyn, priod annwyl Ann; tad cariadus Timothy a Sandra a thad yng nghyfraith Dale; brawd a brawd yng nghyfraith ac ewythr hoff. Diolch am y blodau a'r rhoddion tuag at Ymchwil y Galon.

Hefyd, gwerthfawrogwyd gwasanaeth y Parchedig Marcus Wyn Robinson a Mr William H. Williams, Llanrug, am ei wasanaeth wrth yr organ a threfniadau trylwyr yr ymgymerwr, Mr Dylan Griffith, Tros y Waen.

Cronfa Pensiynwyr

Pêl Bonws Loteri Enillydd Tachwedd oedd Mrs Beryl Roberts, Llys Alun, Racca, efo rhif 37. Llongyfarchiadau. Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb am eu cefnogaeth i'r bêl bonws yn ystod y flwyddyn gan ddymuno pob lwc i bawb y flwyddyn nesaf.

Marchnad Nadolig Diolch i bawb a gefnogodd y diwrnod yma mewn unrhyw fodd. Gwnaed elw o £170 o Gronfa'r Pensiynwyr.

Cinio Nadolig Daeth 32 at ei gilydd i fwynhau Cinio Nadolig blasus iawn yn y Clwb Golff yng Nghaernarfon dydd Sadwrn, Rhagfyr 8. Cafwyd adloniant pleserus i ddilyn y cinio gan Michael Richards yn canu'r Delyn Geltaidd a phawb yn cael cyfle i ymuno yn y canu. Dymuna pawb diolch i'r criw bach sydd yn trefnu hyn bob blwyddyn.

Yr Ysgol Gymuned

Diwrnod Gwisgo Siwmper Nadoligaidd Arran Eurgain Haf, Swyddog Cyhoeddusrwydd yr Elusen, Achub y Plant, daeth ei mam, Anti Ann, i siarad â'r plant am gefndir yr elusen ac am y gefnogaeth a obeithir ei gael ar Rhagfyr 14 drwy wisgo Siwmper Nadolig am £1 er mwyn codi arian i gynorthwyo plant anghenus a bregus o dramor a hefyd yma yng Nghymru.

Mae'r Elusen yn brwydro dros eu hawliau ac yn eu helpu i gyflawni eu potensial. Roedd nifer o ysgolion a gweithleoedd ar draws Cymru eisoes wedi cofrestru i gymryd rhan. Diolchir i Ysgol Pensiarwaun am gymryd rhan yn y weithgaredd hon eleni. Roedd nifer o sêr enwog yn cefnogi'r apêl gan gynnwys llysgenhadon Achub y Plant yng Nghymru: Heledd Cynwal, Gwyn Hughes Jones a'i wraig Stacey Wheeler, a chyn gyflwynwraig dywydd S4C, Jenny Ogwen. Arwyddair yr Elused yw 'Mae pob plentyn wedi'i eni i ddisgleirio'.

Pantomeim Bu'r plant yn Venue Cymru Llandudno bnawn Mawrth, Rhagfyr 18, i weld y Pantomeim, Peter Pan.

Cinio Nadolig Dymunir diolch i Anti Mandy a'r staff am y Cinio Nadolig amheuthun ddydd Iau, Rhagfyr 20.

Sioe Nadolig Cafwyd dau berfformiad clodwiw gan y plant am 1.30 y pnawn a 6 yr hwyr ddydd Mercher, Rhagfyr 12.

Pen-blwydd Arbennig Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Alwyn Williams, Pen y Gaer, Ar achlysur pen-blwydd arbennig ar Rhagfyr 10. Pob hwyl ar y dathlu.

Pwyllgor Neuadd Cynhaliwyd Noson Wasael, nos Iau, Rhagfyr 13, am 7.00 yn y Neuadd Gymuned. Cafwyd eitemau hyfryd gan blant yr Ysgol ynghyd â datganiadau offerynnol clodwiw a darlleniadau Nadoligaidd gan aelodau o'r pwyllgor. Mwynhawyd canu'r hen Garolau i gyfeiliant rhai o aelodau Band Deiniolen a chafwyd pwnsh a mins pei i gloi'r noson. Dymunir diolch i bawb a gymerodd ran mewn unrhyw fodd ac i aelodau'r Band am ein cefnogi eto eleni.

Atgoffir aelodau'r Clwb Cant y bydd angen adnewyddu'r aelodaeth ym mis Ionawr, £5 y flwyddyn neu 50c y mis. Croeso cynnes i aelodau newydd.

Cynhelir Cyfarfod Blynyddol nos Lun, Ionawr 14 am 6.30 yn yr Ystafell Gymuned.

Ysgol Sul Bosra Bu aelodau'r Ysgol Sul, ynghyd â nifer dda o rieni a ffrindiau ar drên bach Rheilffordd Llanberis fore Sul, Rhagfyr 16. Roedd y plant yn eu helfen yn cael sgwrsio â'r Siôn Corn caredig yn ei Groto hardd. Diolchir i Fiona a Liz am drefnu'r cwbl eto eleni. Roedd yn werth gweld wynebau'r plant a'r oedolion hefyd.

Gwasanaeth Cristingl Bydd cyfle i aelodau'r Ysgol Sul, rhieni, ffrindiau neu unrhyw un sy'n dymuno ymuno mewn Gwasanaeth Cristingl hyfryd yn Eglwys Santes Helen fore Sul, Rhagfyr 23 am 11.00 y bore. Caiff y plant gyfle i ganu Carolau gyda Susan Williams ac yna cael hanes cefndir Oren y Cristingl gan y Ficer, Y Parch Lloyd Jones.

Bydd yr Ysgol Sul yn ailgychwyn fore Sul, Ionawr 12fed am 10.00 y bore.

Colled Ar Tachwedd 29ain, yn sydyn ond yn dawel yng nghwmni ei theulu yn Ysbyty Gwynedd, bu farw Mrs Mary Davies, 9 Llys y Gwynt, yn 85 mlwydd oed. Priod y diweddar Hughie, mam annwyl Ann ac Ellen, mam yng nghyfraith Dave, nain hoff Berwyn ac Andrea a hen nain Gruffudd ac Esme.

Gwelir ei cholled yn fawr nid yn unig gan ei theulu annwyl ond gan nifer helaeth o gymdogion a ffrindiau. Roedd yn barod ei chymwynas a bu'n ohebydd i'r Eco ar y cychwyn ac yn ei ddanfon i drigolion Bryn Eglwys a Llys y Gwynt am flynyddoedd maith. Bu'n warden Eglwys Santes Helen am flynyddoedd.

Roedd Anti Mary yn Anti Mary 'sbesial' i genedlaethau o blant Ysgol Tan-y-Coed a'r Ysgol Gymuned. Roedd wrth ei bodd yng nghwmni plant ac fe'i cofir yn eu gorchymyn yn ddyddiol i fynd 'Out to the Cowt'. Roedd yn uchel ei pharch gan benaethiaid yr ysgol a'r staff i gyd. Diolch am gael adnabod un mor ddoeth a ffraeth.

Diolch Dymuna Ann, Ellen a'r teulu ddiolch i bawb am y llu cardiau, galwadau ffôn ac ymweliadau yn ystod eu profedigaeth lem. Diolchir hefyd am y rhoddion ariannol tuag at Eglwys Santes Helen ac elusennau lleol. Diolch o galon.

Dymunir Nadolig Dedwydd i bawb ohonoch a Blwyddyn Newydd lawn bendithion yn 2013.

APÊL

Gan nad oes enw wedi dod i law fel gohebydd i Benisarwaun ar ôl y Nadolig, anfonwch eich newyddion i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug (01286 6733515) e-bost: ecor-wyddfa@gmail.com ar y Sul 'Copi i Law'.

Dymuna Ann Ifans ddiolch i'r Ysgol am eu cyfraniad misol ac i'r rhai fu'n cyfrannu'n achlysurol

Dylan Griffith
Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol
TROS-Y-WAEN PENISARWAUN
Gwaith Cerrig Beddi
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu'r Holl Ardal
Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)
Hefyd
CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
Cyrhaeddwch Mewn Steil Mewn Cerbyd Rolls Royce
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDD ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL

Eco Dolig 2012.indd 17 18/12/2012 09:42

ECO'r Wyddfa *Nadolig Llawen i bawb*

Mae pawb yn
SIOP SGLODION Y PENTREF
THE VILLAGE CHIPPY
WAUNFAWR, Ffôn: 650683
yn dymuno Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn y pentref

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA

i holl gyfeillion yr Antur ym mro'r Eco

Antur Waunfawr
Antur Waunfawr

01286 650 721 www.anturwaunfawr.org

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb yn
WELDPAR
CYMRU WALES
CANOLFAN OFFER WELDIO
WAUNFAWR Ffôn: 650720

Nadolig llawen a Blwyddyn Newydd dda oddi wrth bawb yn
GAREJ GWALIA
CAEATHRO
Ffôn: 673096
Gwasanaeth
Torri Lawr 24 awr
M.O.T. * Trwsio Ceir
LONDIS
Ar agor 6.30am-10pm bob dydd. Bwyd, diodydd, papurau newydd, fideos, bara, llefrith, ayb

DYMUNA DAFYDD, Y TEULU A STAFF
Y TARW (Bull Inn)
DEINIOLEN
NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
I'W CWSMERIAID A FFRINDIAU OLL

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
I HOLL DDARLLENWYR ECO'R WYDDFA
oddi wrth
bawb yn
ARFON GARAGE
DEINIOLEN
(Ffôn: Llanberis 870287)
Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddiwrth Elaine a Staff
Siop Trin Gwallt a Harddwch
Elaine's
LLANRUG
Ffôn: 01286 672 023

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'n holl gwsmeriaid ac i bawb ym mro *Eco'r Wyddfa* oddi wrth bawb ym musnes llefrith
EIRWYN WILLIAMS
LLWYNCOED
CWM-Y-GLO
Ffôn: (01286) 870563
Diolch am eich cefnogaeth trwy'r flwyddyn

CYFLENWYR PORTHIANT
IDRIS MORRIS
BWYDYDD ANIFEILIAID ANWES
GWERTHWYR NWY A GLO
Y Fachell
Llanddeiniolen
Ffôn:
01248 670439
NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA

Eco Dolig 2012.indd 18 18/12/2012 09:42

ECO'r Wyddfa *Nadolig Llawen i bawb*

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
PAT AC EDGAR
SWYDDFA'R POST
LLANRUG
SWYDDFA'R POST
Ffôn: (01286) 672422

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
WENDY
a
STAFF
TAFARN
PENBONT
LLANRUG
Lle braf a chwmni difyr dros wyliau'r Nadolig a'r Flwyddyn Newydd

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
Dave, Bobbie a staff y
GLYNTWROG
LLANRUG
671191
Bwyd ardderchog am brisiau rhesymol
Bydd croeso cynnes yma dros yr ŵyl

DYMUNA
GWYNFA A MARGARET
PRITCHARD
GWERTHWYR LLEFRITH
CEFN LLWYD
LLANRUG
Ffôn 872263
NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
I CHWI OLL

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
BRYN AFON ENGINEERING LTD
PEIRIANWYR MECANYDDOL
Arbenigwyr mewn pob math o waith metel
GWAITH BRYN AFON
LLANRUG, Ffôn: 675523

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'n cwsmeriaid i gyd oddi wrth
IONA A STAFF
SIOP CHIPS TEGFAN
Y Sgwâr, LLANRUG
07761470761

CYFARCHION Y TYMOR ODDI WRTH
DENNIS ROBERTS
(Glyn Roberts a'i Fab)
DYNION GLO LLANRUG
Ffôn: 675043
Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth
Y DYN CIG
BRYNAFON, LLANRUG
675190 - 673188
Symudol: 07798 718188
Gwasanaeth lleol ar gyfer
Partion - Priodasau
Penblwydd - Bedydd - Dawns - Gwyliau
RHOSTIO MOCHYN ar gyfer pob achlysur
Cig o ffermydd lleol. Partion rhwng 40 a 400!
Dewcs mae o'n flasus!
Cysylltwch a John Hughes Jones ar un o'r rhifau uchod

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb yn siop
LONDIS
FFORDD YR ORSAF
LLANRUG
LONDIS
Ffôn:**672937**
Y gwerth gorau'n lleol
- Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn
- Dewis da o fwyd a diod i ddathlu'r Ŵyl o ben bore tan yn hwyr y nos!

Eco Dolig 2012.indd 19 18/12/2012 09:42

Diolch Dymuna Alice, Beddgelert, ddiolch o galon am y cardiau a'r galwadau ffôn a dderbyniodd wrth ddathlu ei phen-blwydd arbennig. Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

Dymuna Hugh Morris, 9 Rhes Fictoria, ddiolch o galon i'w deulu a'i ffrindiau am y cardiau, arian ac anrhegion a dderbyniodd ar ddathlu ei ben-blwydd arbennig.

Cyfarchion yr Ŵyl Dymuna Goronwy Lewis, Stryd Ceunant, Nadolig Llawen iawn a Blwyddyn Newydd Dda i bawb o'i deulu a'i ffrindiau, gan na fydd yn anfon cardiau'r Nadolig hwn.

Cyfarchion Nadolig Dymuna Myrddyn ac Annie Pritchard, 1 Ffordd Padarn, Llanberis, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w cyfeillion a'u cymdogion, gan ddiolch yn fawr iawn am bob gofal a charedigrwydd ar hyd y flwyddyn.

Capel Coch:

Oedfa Nadolig yr Ysgol Sul Cynhelir Oedfa Nadolig y Plant am 5.00 o'r gloch, nos Sul, Rhagfyr 23. Croeso cynnes i chi ymuno â ni i ddathlu'r Nadolig. Am y tro cyntaf, byddwn yn cynnal parti Nadolig y plant yr un noson â'r oedfa, ac felly edrychwn ymlaen at noson arbennig iawn.

Cofiwch hefyd fod croeso cynnes i blant i'r Ysgol Sul a gynhelir yn Capel Coch am 11.15 o'r gloch bob bore Sul. Byddwn yn ail ddechrau wedi gwyliau'r Nadolig ddydd Sul, Ionawr 13. Ar y **pedwerydd Sul** bob mis byddwn yn cynnal Oedfa Deulu am 10.30 o'r gloch yn lle'r Ysgol Sul. Bydd y nesaf, felly, ddydd Sul, Ionawr 27. Ffoniwch 01286 872390 am fanylion pellach am yr Ysgol Sul.

Bore Nadolig: Croeso cynnes i'r oedfa Gymun a gynhelir yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch fore dydd Nadolig.

MOLI Cynhelir oedfa MOLI (Mwy O Le i Iesu) yn Capel Coch am 5.00 o'r gloch ar yr ail nos Sul o bob mis. Bydd y nesaf am 5.00 o'r gloch nos Sul, Ionawr 13.

CICiau Aeth tri o ieuenctid CICIau i'r noson Nadolig a gynhaliwyd gan griw Coleg y Bala ym Mryn y Groes, Y Bala nos Wener, Rhagfyr 7. Roedd yn braf iawn gweld 98 o bobl ifanc rhwng 12 a 18 oed o wahanol rannau o'r Gogledd wedi dod at ei gilydd am ddwy awr lawn hwyl yn dathlu neges y Nadolig.

Mae CICiau (Clwb Ieuenctid Cristnogol Iau) yn cael ei gynnal bob pythefnos ar nos Wener, am 7.00 o'r gloch. Am fanylion pellach ffoniwch 872390 eto. Ceir manylion llawn am drefn yr oedfaon, yr Ysgol Sul a CICiau ar ein gwefan, gronyn.org unrhyw amser.

Oedfa nos Sul O Sul cyntaf y flwyddyn newydd ymlaen bydd oedfaon nos Sul Capel Coch yn cychwyn am 5.00 o'r gloch.

'Capel's Got Talent'

Nos Wener, Ionawr 11, 2013

Bydd ieuenctid dosbarth hynaf Ysgol Sul Capel Coch yn trefnu Capel's Got Talent' i godi arian at Apêl Guatemala (Eglwys Bresbyteraidd Cymru a Chymorth Cristnogol) nos Wener, Ionawr 11, 2013.

Maent angen plant a phobl sy'n fodlon cymryd rhan yn y 'gystadleuaeth'. Gallwch wneud unrhyw beth, fel canu, adrodd, dawnsio, jyglo, chwarae offeryn, gwneud syms yn sefyll ar eich pen ... unrhyw beth, ond iddo beidio bod yn beryglus i chi neu'r gynulleidfa!

Hwyl fydd y cyfan, ac ni fydd yn gystadleuaeth yn yr ystyr y bydd yna enillwyr a chollwyr. Ewch ati i ymarfer dros y Dolig! Y beiriniad fydd Dafydd Iwan, Caeathro.

DODREFN a LLORIAU

PERKINS

SÊL Y GAEAF

Gwasanaeth Mesur aFfitio

Yn Dechrau Am 10o'r gloch

DYDD IAU RHAGFYR 27 2012

10% ODDI AR BRISIAU'R SÊL

HEFO'R HYSBYSEB HWN

rhwng Rhagfyr 27ain. a 5ed. o Ionawr

2 Ganolfan Pen-llyn, Caernarfon, Ffôn (01286) 676040

Hefyd yn-16 Stryd Porth Mawr. Caernarfon Ffôn (01286) 673535

Eco Dolig 2012.indd 20 18/12/2012 09:42

ECO'r Wyddfa

Nadolig Llawen i bawb



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda gan yr holl hysbysebwyr rheolaidd

Nadolig llawen gan holl staff

Amgueddfa Lechi Cymru!

Dewch i ymweld â ni y gaeaf yma!

Sion Corn a Ffair Gaeaf
25.11.2012



Arddangosfeydd



Sioe Trenau Bach
14 -17. 2. 2013



Arddangosiadau



Atyniadau



Caffi clyd

AMSEROEDD AGOR Y GAEAF 2012
10am- 4pm Dydd Sul - Dydd Gwener
(ar gau ar ddydd Sadwrn)
DROS Y NADOLIG BYDDWN AR GAU:
22,24,25,26,29 Rhagfyr a 1 Ionawr 2013

ANRHEGION
A HAMPERI
NADOLIG
ar gael nawr

Amgueddfa Lechi Cymru
Llanberis, Gwynedd LL55 4TY
☎ 02920 573700
www.amgueddfacymru.ac.uk

ECO'r Wyddfa

Cefnogwch ein hysbysebwyr

Trwsio ac Adnewyddu Dodrefn

Wedi torri darn o ddodrefn?
Hoff gelfi wedi mynd i edrych yn drist?
Cysylltwch â ni i roi bywyd newydd i'ch trysor

Dennis & Julie Jones
01286 650255

Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb yn

SNOWDONIA FIRE PROTECTION
YR HEN EFAIL, WAUNFAWR
Ffôn: (01286) 650235
Hefyd: Uned 10 TIR LLWYD, BAE CINMEL (01745) 360445
OFFER DIFFODD TÂN — masnachol ac i'r cartref
OFFER CANFOD MŴG ar gyfer y cartref
GOLEUADAU ARGYFWNG
LARWM TÂN, a llawer mwy
i'w gweld yn ein swyddfa.

Royal Victoria Hotel LLANBERIS

PRIODASAU
Dathliadau ● Achlysuron Arbennig ● Cynadleddau
Pwyllgorau ● Bwydlen Bar ● Cinio Dydd Sul

Ffôn- 01286-870253
Mev-royalvictoria@legacy-hotels.co.uk

POSH PAWS

TACLUSO CWN
Busnes Newydd Lleol
PRYNHAWNIAU neu NOSWEITHIAU 4-10
DYDD SUL 8YB-4YP
Gwasanaeth Casglu a Danfon
Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
(01248) 671382 • 07565791010
ebost- juliaposhpaws@btinternet.com

Nadolig Llawen
a Blwyddyn
Newydd dda
oddiwrth
pawb yng
NGHARTREF

Foelas
Ffordd yr Orsaf
LLANRUG

Ffôn: 01286 674 652

Eco Dolig 2012.indd 21 18/12/2012 09:42

CLWB 300 Enillwyr y Clwb am fis Tachwedd oedd: £30: Ms Sylvia Thompson, 21 Bro Waen; £20: Mrs Olwen Owen, 23 Tref Eilian; £10: Mr Edgar Owen, Glyn Awel.

Dathlu Pen-blwydd Priodas Llongyfarchiadau i John ac Irene, Pant Teg, ar gyrraedd deugain mlynedd o briodas. Bu'r ddau yn dathlu eu Priodas Ruddem yn ddiweddar. Dymuniadau gorau ichi a phob hapusrwydd i'r dyfodol.

Dathlu Pen-blwydd Arbennig Llongyfarchiadau i Catrin Heledd, Stad Tŷ Hen a Sioned Fôn, Ty'n Twll. Bydd y ddwy yn cyrraedd eu deunaw oed yn ystod mis Rhagfyr. Dymunwn y gorau i'r ddwy ohonoch i'r dyfodol a phob hwyl ichi ar y dathlu.

Priodas Dydd Sadwrn, 24 Tachwedd, yn Eglwys y Waun, priodwyd Sioned Jones, Hafod y Rhyg a Jamie. Llongyfarchiadau ichi a phob dymuniad da i'r dyfodol. Maent wedi cartrefu ym Mhrestatyn.

Babanod Bach Llongyfarchiadau i Daron a Lowri, Bryn Eithin ar enedigaeth mab, Alffi, brawd a mêt bach i Gruff Mei. Mae y ddau fach yn wyrion i John a Sioned Gwyn a oedd yn byw yn Bryn Eithin gynt.

Llongyfarchiadau i Nesta Eluned, Tremnant ar ddod yn nain i Mabli Nel, merch fach i Emily a Berwyn, mab Nesta sydd yn byw yn Llundain.

Ymddeoliad Dymunwn ymddeoliad hapus i Mrs Margaret Pickring, Stad Tref Eilian, o'i swydd yn Archfarchnad Morrisons Caernarfon.

Gwellhad Buan Dymunwn wellhad buan i Mrs Llywela Davies, Stad Tref Eilian wedi iddi dderbyn triniaeth yn yr ysbyty. Mae Mrs Catherine Jones, Gwenallt, yn gwella wedi iddi gael triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

Anfonwn ein cofion cynnes atoch ac at bob un sydd wedi bod yn sâl yn ystod yr wythnosau diwetha.

Dymuniadau gorau at Ŵyl y Nadolig i'r rhai sy'n gaeth i'w cartref neu sydd mewn Cartrefi preswyl.

Anfonwn ein cofion cynhesaf at Mrs Betty Griffith, Gorffwysfa, sydd wedi treulio cyfnod yn Ysbyty Gwynedd ond sydd yn awr wedi cael dod i Ysbyty Eryri.

Mae Dr Williams, Tros y Gors wedi cael dod i Ysbyty Eryri yng Nghaernarfon ac yn gobeithio yn fawr y bydd adref erbyn y Nadolig.

Nadolig Llawen Dymuna Mrs Margaret Owen, Bryn Gwylan,

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu, ffrindiau a chymdogion. Ni fydd Mrs Owen yn anfon cardiau Nadolig eleni.

Apêl Flynyddol Diolch ein bod wedi derbyn rhifynnau yr Eco drwy'r flwyddyn a'r mis nesaf, Ionawr 2013, ein tro ni yw ei blygu. Gofynnaf yn garedig i'r rhai ffyddlon sy'n dod yn flynyddol ac i bob un arall hoffai ddod atom i wneud y gwaith ddod i Festri Eglwys y Waun ddydd Iau, Ionawr 30. Cysylltaf â chi i ddweud yr amser.

Llongyfarchion.

Daeth y newyddion o'r Gaiman, Patagonia, am enedigaeth Lowri Ann, merch Angelica a Pablo Ariel Evans; chwaer fach i Pablo a Iestyn, a fu'n ddisgyblion yn Ysgol Waunfawr ar ddechrau'r llynedd tra roedd eu mam yn arsylwi gwaith yr ysgol.

Cyfarchion y Tymor Dymunwn Nadolig Dedwydd a Blwyddyn 2013 Dda i drigolion y pentref a'r ardal.

PRYDERON WAUNFAWR AM GYNLLUN TRYDAN

Mynegwyd pryderon mewn cyfarfod cyhoeddus yn Waunfawr am y defnydd posib a wneir o Chwarel Fawr Cefn Du fel rhan o gynllun trydan dwr gwerth £100m yng Nglyn Rhonwy Llanberis.

Trefnwyd y cyfarfod gan y Cynghorydd Eurig Wyn yn dilyn pryderon trigolion y "Groeslon" Waunfawr y bydd cerbydau trwm yn mynd heibio'u tai am gyfnod hir tra'n datblygu'r cynllun.

Yn ôl Dave Holmes a anerchodd y cyfarod ar ran cwmni Quarry Battery, sy'n datblygu'r cynllun, mae'r safle yn un delfrydol. "Bydd yn medru pwmpio dwr yn effeithiol a storio llawer o drydan oherwydd y pelllter a'r uchder rhwng chwareli Llanberis a Waunfawr" meddai. Amcangyfir y gellir cynhyrchu gwerth digon o drydan i'r Grid Cenedlaethol i gyflenwi cymaint a 50,000 o gartrefi.

Dywedodd Eurig Wyn: "Does gen i ddim pryder ynghylch bendithion y cynllun, os y caiff ei ddatblygu, ond rhaid diogelu buddiannau trigolion Lôn Cefn Du cyn gynted â phosib." Yn ôl Dave Holmes bydd y drafnidiaeth drymaf yn digwydd yn ystod misoedd cyntaf ac olaf y prosiect.

Ychwanegodd Eurig Wyn: "Ein pryder mwyaf yw'r difrod posib i adeiladau cyfagos i'r ffordd. Dyma gymuned a effeithiwyd yn arw yn ddiweddar gan lifogydd. Byddai unrhyw anhwylustod pellach yn drychineb." Dywedodd fodd bynnag ei fod yn hapus clywed y bydd y cwmni yn gwneud ei orau i berswadio'r datbygwyr i ddefnyddio llafur lleol.

Gwobrau Nyrs y Flwyddyn (parhad o'r dudalen flaen).

Roedd naw o gategoriau gwahanol yn cael eu gwobrwyo, a chynhaliwyd y seremoni yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd ar ddiwedd Tachwedd. Roedd enillydd y naw categori yn mynd ymlaen i ddewis nyrs y flwyddyn. Roedd Sali yn hynod o falch mai'r nyrs enillodd gategori nyrsio iechyd meddwl ddaeth hefyd yn fuddugol fel Nyrs y Flwyddyn, gan y teimlai fod hyn yn rhoi cydnabyddiaeth ddyladwy i arbenigwyr ym maes iechyd meddwl ac anabledd dysgu.

Mae Sali yn gweithio fel nyrs iechyd meddwl a therapydd grwpiau yng ngwasanaethau seicolegol siroedd Conwy a Dinbych, a'r gwaith arweiniodd at ei henwebiad oedd ei hymdrechion i wella darpariaeth iechyd meddwl ar gyfer siaradwyr Cymraeg. Mae wedi creu deunyddiau therapiwtig yn Gymraeg, ac wedi cyfrannu tuag at raglenni hyfforddiant ac wedi cymryd rhan mewn ymgynghoriadau ar ddeddfwriaeth a pholisi gofal iechyd meddwl yng Nghymru.

Yn enedigol o Benrhyncoch ger Aberystwyth, mae erbyn hyn wedi ymgartrefu yn y Waunfawr gyda'i phriod, Jimmy, sy'n blismon ym Mhorthmadog, a'i phlant Jac, Poppy a Deri.

Eco Dolig 2012.indd 22 18/12/2012 09:42

Auto EXPRESS NEW CAR AWARDS WINNER 2012 BEST SUPERMINI

Dim ond **£159*** *y mis*

Gyda 3
Blwyddyn o **yswiriant**
Blwyddyn o wasanaeth arferol
Blwyddyn o dreth y car
Blwyddyn o wasanaeth achub
Blwyddyn o warant llawn

Cofiwch chi y tanwydd!
- Rwan ar gael i ddreifwyr **dros 21 oed!**

Cefnogwch gyflogwr lleol - £50 o danwydd i ddarllenwyr yr Eco gyda phob car newydd

PEUGEOT ***208*** NEWYDD

Mae'r Peugeot 208 newydd rwan a'r gael yma yn Elim Peugeot. Yn ysgafnach a llai ar y tu allan, ond gyda mwy o le tu mewn mae iddo mwy na digon i ddal y llygaid. A gyda gwasanaeth "Just Add Fuel" sydd ar gael gan Peugeot yn unig, y cwbl sydd rhaid chi gofio ydi'r tanwydd! **Ffoniwch ni heddiw i brofi y Peugeot 208 dros eich hun.**

PEUGEOT

MOTION & EMOTION

ELIM PEUGEOT

Parc Bryn Cefni, Llangefni, Ynys Mon Ffon: 01248 750251
www.elimpeugeot.co.uk

* Pris ar gyfer 208 Access 1.0 3dr i berson 35 mlwydd oed yn byw yng nghanol pentref Llanberis. Blaendal £1,303.25, 35 taliad misol o £159.00, cost credit a ffioedd £1,250.17 **APR 6.4%.** Contract 6,666 milltir y flwyddyn. Cost o 9c y milltir dros hyn. Taliad misol i berson 21 mlwydd oed fyddai £199.65. Telerau ac amodau llawn ar gael yn y garej neu ar y wefan www.peugeot.co.uk. Dangosir 208 Ice Velvet yn y llun hwn sydd ar gael am gost ychwanegol.
Y ffigyrau effeithlonrwydd swyddogol mewn milltir y galwyn (l/100km) ac allyriad CO2 (g/km) ar gyfer 208 yw: Urban 78.4 – 34.9 (3.6 – 8.1), Extra Urban 88.2 – 62.8 (3.2 – 4.5), Combined 83.0 – 48.7 (3.4 – 5.8) a CO2 87 - 135

Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch **AC** mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
alunffred.jones@cymru.gov.uk

DINORWIG

Marian Jones.
Ffôn: (01286) 870291

Marwolaeth Yn yr Eco y mis diwethaf bu imi ddymuno gwellhad buan i Mrs Yvonne Brennan, Afallon, a oedd yn Ysbyty Gwynedd ond, yn anffodus, bu farw fore Iau y 15 o Dachwedd yng nghwmni ei theulu ar drothwy ei phen-blwydd yn 93 mlwydd oed. Bu'r angladd yn yr Amlosgfa ym Mangor ddydd Sadwrn, 1 Rhagfyr. Yr oedd y gwasanaeth dan ofal y Canon Idris Thomas lle yr oedd y teulu, cymdogion, ffrindiau ac aelodau o Glwb Elidir wedi dod i dalu'r deyrnged olaf iddi. Talwyd teyrnged iddi gan ei mab yng nghyfraith a'i nai, Ben.

Diolch Dymuna Miss Nellie Wyn Jones, Ty'n y Fawnog, ddiolch i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn ddiweddar. Diolch yn fawr i bawb.

Yn yr Ysbyty Drwg gennym ddeall fod Myfi Evans, Sŵn yr Awel, yn Ysbyty Gwynedd. Y mae Myfi yn un o'r rhai a fydd yn dosbarthu yr Eco. Dymunwn adferiad llwyr a buan iddi. Brysia wella, Myfi.

Y Ganolfan Braf yw cael gweld mynd a dod yn y Ganolfan unwaith eto. Croeso cynnes i Menter Fachwen yno. Mae yn braf gweld Cymry yn ei chymryd drosodd. Dymunwn fel ardal lwyddiant mawr iddynt a gobeithio y byddant yn mynd o nerth i nerth. Croeso mawr i ardal Dinorwig.

Cwyno Ar hyn o bryd mae llawer yn cwyno yn yr ardal. Yr ydym fel ardal yn dymuno adferiad llwyr a buan iddynt gan obeithio y byddant yn cadw'n gynnes yn ystod y gaeaf, gn obeithio na fydd y tywydd yn rhy ddrwg y gaeaf hwn.

Tymor y Nadolig Fel ardal yr ydym yn dymuno Nadolig Llawen i Mrs Alice Thomas, Bro Eldir gynt, sydd yn cartrefu ym Mhlas Pengwaith, Llanberis ac sydd ddim wedi bod yn rhy dda yn ddiweddar,. Gobeithio y gallwch fwynhau yr Ŵyl.

Llongyfarchiadau mawr i Mrs Priscilla Williams, Wylfa, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 98 mlwydd oed yn ddiweddar. Diolch i'r mab, Alwyn, am fod mor garedig hefo hi. Ymlaen â chwi, Mrs Williams, i gael derbyn cerdyn gan y Frenhines mewn llai na dwy flynedd yn awr.

Dymunaf Nadolig Llawen i holl ddarllenwyr yr Eco. Peidiwch â bwyta gormod. Hwyl yr Ŵyl.

Hywel Williams
Aelod Seneddol Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch **AS** mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
williamshy@parliament.uk

Eco Dolig 2012.indd 23 18/12/2012 09:42

Côr Meibion Dinas Bangor

Fore Llun, Tachwedd 26ain, am ddeg o'r gloch y bore, gyda thywydd nad oedd ar unrhyw gyfrif yn groesawgar i gwsmeriaid cyntaf siop newydd ASDA ym Mangor, 'roedd Côr Meibion Dinas Bangor yno ym mynedfa'r archfarchnad yn llawn hwyliau i'r achlysur. Rhyw chwarter awr cyn yr agoriad swyddogol a'r siopwyr yn rhes hir y tu allan gyda'u troliau, perfformiodd y Côr ddau ddatganiad bywiog i gymeradwyaeth frwdfrydig.

Yn dilyn agor y drysau, symudodd y Côr i'r cyntedd mewnol gan barhau i ddiddanu'r siopwyr ar eu ffordd i mewn.

Roedd eu mwynhad yn amlwg a'r cymeradwyo wrth fynd heibio yn parhau a phawb wedi eu rhoi mewn hwyliau i wario eu harian, ni obeithiwn. (Yn dilyn cafwyd lluniaeth ysgafn yn y caffi).

Roedd cynrychiolaeth gref o'r Côr yn bresennol a chafwyd gwerthfawrogiad arbennig o berfformiad y cantorion, cyfraniad yr arweinydd Gwilym Lewis a'r gyfeilyddes Lowri Roberts Williams. Bu'n achlysur pleserus i'r Côr a diolchwn yn fawr i Fwrdd Rheoli Asda am y gwahoddiad i berfformio ar yr achlysur arbennig hwn'.



Pobol Arwyn Herald.

Do, fe ddaeth ail gyfrol ffotograffydd enwocaf gogledd-orllewin Cymru, os nad Cymru gyfan, o'r wasg cyn y Nadolig. Yn dilyn llwyddiant "Drwy Lygad y Camera" bu cryn bwysau arno i ddethol a didoli o'i gasgliad enfawr o ffotograffau, a chyflwyno cyfrol arall. A dyma hi!

A phobol sy'n llenwi'r gyfrol. Pobol wrth eu gwaith ac yn eu gweithgareddau hamdden. Enwogion rhyngwladol, enwogion cenedlaethol ac enwogion lleol, ac ambell un llai adnabyddus na hynny hyd yn oed!

Mae Arwyn bellach yn wyneb cyfarwydd iawn yng nghymunedau a chymdeithasau gogledd-orllewin Cymru; yn bennaf oherwydd ei waith fel ffotograffydd i gwmni'r Herald. Y bobol rheini sy'n cael sylw yn y llyfr hwn, sydd wedi ei rannu'n bennodau amrywiol o Fyd y Ddrama a Gwlad Beirdd a Chantorion i Hel eu Boliau a Ty Potas, ond mae'r cyfan yn ddiddorol, ac yn sicr o ddwyn atgofion i ddegau o bobol.

Gwasg Carreg Gwalch fu'n gyfrifol am y cyhoeddiad glân a destlus, ac mae'r elw i gyd yn cael ei gyflwyno i gronfa Ty Gobaith. Prynwch a mwynhewch.

Cyhoeddi'r Casgliad Mwyaf Cynhwysfawr o Ganeuon Gwerin Cymru

Yn dilyn llwyddiant ysgubol 100 o Ganeuon Pop, mae'r Lolfa ar fin rhyddhau ail gasgliad o ganeuon poblogaidd Cymru, sef 100 o Ganeuon Gwerin. Wedi'i olygu gan Meinir Wyn Edwards, credir mai hwn yw'r casgliad mwyaf cynhwysfawr o ganeuon gwerin yn y Gymraeg.

O'r caneuon adnabyddus fel 'Ar lan y môr', 'Beth yw'r haf i mi?' a 'Hen Ferchetan' i'r rhai llai amlwg fel 'Ffair Henfeddau', 'O, felly'n wir!' ac 'Y deryn bach syw', ceir ystod eang o ganeuon rhwng cloriau ail 'Feibl y Bysgwyr'.

Fel 100 o Ganeuon Pop, mae'r casgliad yn addas i gerddorion ifanc yn ogystal â cherddorion profiadol, ar gyfer unigolion a phawb sy'n mwynhau dod ynghyd i ganu'n anffurfiol. Ac i'r rhai sydd awydd creu cyfeiliant i'r caneuon, mae cyfarwyddiadau defnyddiol dros ben yn cynnig pa gordiau y gellwch eu defnyddio, a darperir siart o'r cordiau gitâr yn ogystal.

'Rydyn ni mor lwcus yng Nghymru fod gennym draddodiad gwerin mor gyfoethog,' meddai golygydd y gyfrol, Meinir Wyn Edwards. 'Ac mae canu gwerin wedi cael adfywiad yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae to newydd yn ymddiddori yn y traddodiad gwerin Gymreig, gyda grwpiau megis Calan, Cowbois Rhos Botwnnog a 9Bach yn gwneud y sin werin yn cŵl ac yn cyflawni gwaith gwych wrth hybu a lledaenu'r traddodiad canu gwerin Gymreig ar draws y byd.'

Ychwanega Siân James, cantor gwerin amlycaf Cymru, 'Does dim byd gwell gen i na phori'n hamddenol drwy'r llyfrau hyn yn trio darganfod rhyw gân fach "newydd", fel petai, i ymaflyd â hi. Felly mae'n hyfryd iawn gen i weld llyfr fel hwn yn cael ei gyhoeddi, fel bod selogion fel finnau, yn ogystal â'r rhai sydd eisiau dysgu mwy am ein caneuon gwerin, yn medru cael mynediad rhwydd i fyd cyfoethog ein traddodiad. Yn sicr, mae llyfr fel hwn yn gaffaeliad mawr i unrhyw un sydd â diddordeb ym myd y gân werin Gymraeg.'

Mae'r casgliad yn cynnwys: Ar Lan y Môr, Bugeilio'r Gwenith Gwyn, Cysga Di Fy Mhlentyn Tlws, Dacw 'Nghariad, Hen Ferchetan, Hiraeth, Lisa Lân, Mil Harddach, Paid â Deud, Suo Gân, Tra Bo Dau, Twll Bach y Clo, Y Gwydr Glas, Ym Mhontypridd Mae 'Nghariad, Yr Eneth Ga'dd ei Gwrthod ac 85 o ganeuon bendigedig eraill.

Magwyd Meinir Wyn Edwards yn ardal y Preseli ac ar ôl graddio o Brifysgol Bangor, bu'n athrawes am 18 mlynedd. Erbyn hyn, mae'n byw yn Llandre, Bow Street ac yn Olygydd i wasg y Lolfa.

Calan

Mae gwyrthiol reol y rhod, - a'i dymor
i'r dim, yn nhrac gofod,
hen arfaeth rhawd anorfod
i ni,- bob Ionawr yw'r nod.

"Mae eich Brenin yn dyfod..." Ioan 12:15
Y Tad yn Fab mewn stabal, - Duw ein byd
fel dyn bach mewn rhastal,
Ceidwad rhad i'r anwadal
yw gwyrth Gwaredwr mewn gwâl.

Norman Closs Parry

Marwolaeth cyn feddyg teulu.

Derbyniwyd y newyddion trist fod Dr O.P.Jones, cyn feddyg teulu yn yr ardal am ugain mlynedd o 1974 hyd ei ymddeoliad yn 1994 wedi marw yn gynharach fis Rhagfyr. Ymgartrefodd yn Bron Wenda, Llanrug, ac yna ym Mhlastirion cyn ymddeol a symud o'r ardal. Anfonwn ein cydymdeimlad â'r teulu yn eu profedigaeth.

Cefnogwch ein hysbysebwyr

Eco Dolig 2012.indd 24 18/12/2012 09:42

Cymdeithas Pysgotwyr Seiont, Gwyrfai a Llyfni

Wrth ystyried hanes diweddar y gymdeithas ymddengys bod rhywbeth neu'i gilydd yn dragywydd yn ein poeni a bygwth y pleser a'n gweithgareddau. Rydym wedi wynebau sawl her – yn cynnwys newidiadau ac anawsterau amgylcheddol dwys yn ein dyfroedd, heb sôn am bwyso a mesur teimladau a barn ein haelodau a cheisio cael dau ben llinyn ynghyd yn ariannol. Yn ddi-os roedd yr wythdegau a'r nawdegau yn gyfnod hynod bwysig i'r Gymdeithas. Heb y polisi penodol o fynd ati i brynu ein dyfroedd yn hytrach na'u rhentu, a newid cyfansoddiad y clwb i fod yn gwmni cofrestredig, mae'n debyg na fuasai'r Gymdeithas mewn sefyllfa bellach i gynnig yr amrywiaeth eang o bysgodfeydd sydd ar gael i'n haelodau.

Un a fu'n mwyaf gweithgar yn gyrru'r datblygiadau yma ymlaen oedd ein cadeirydd ar y pryd, y diweddar Maurice Jones, Penllyn. Daeth y newydd fod Maurice wedi ein gadael wrth i'r gwanwyn unwaith eto symud drwy'r glyn a deffro'r fro. Mawr yw ein dyled iddo a chydymdeimlwn â'i deulu ar ddiwedd y flwyddyn.

Tybiaf y daw yna amser y byddwn yn cofio 2012, hefyd, fel blwyddyn dyngedfennol yn hanes ein dyfroedd a Chymdeithas Pysgotwyr Seiont,Gwyrfai a Llyfni.

Ond yn gyntaf - y pysgota. Pwy gofia bellach tywydd llewys crys mis Mawrth? Erbyn mis Ebrill roedd hi eto'n oeri, a daeth glaw i ddilyn glaw bron weddill y tymor. Wedi dechrau araf, bu daliadau brithyll ar ddyfroedd uchel yr haf a daeth rhai da i law ar lannau'r Seiont,ac ambell 'sgodyn bras o Lyn Padarn hefyd.

Cyson fu'r daliadau ar Cwellyn a Nantlle, ac aelodau ac ymwelwyr yn mwynhau llwyddiant ar Lyn y Dywarchen. A braf oedd gweld sewin yn berwi yn y Llyfni erbyn canol mis Gorffennaf. Mewn haf o lifogydd gallai cyfleoedd i 'sgota oriau'r nos fod yn brin, ond ar y Llyfni mae llif yn prysur ruthro drwy'r dyffryn a'r pyllau'n llonyddu mewn ychydig ddyddiau. Pan gafwyd cyfle roedd pysgotwyr oriau'r gwyll unwaith eto yn crwydro'r llwybrau ac yn ymestyn rhwng y llwyni i daflu pluen i'r mannau cyfarwydd, a'r gw'niadau yn awyddus iawn i dynnu lein yn dyn yn y duwch. Cafwyd nosweithiau o ddaliadau da, ac ambell 'sgodyn mawr. A bellach, mae'r rhan fwyaf o'n haelodau yn rhyddhau'r rhan helaeth o'r sewin lleiaf, y rhai sydd efallai yn cynnal y niferoedd toreithiog a welwyd eleni.

Eto daliwyd eogiaid a sewin ar Afon Gwyrfai gan aelodau hen ac ifanc. Mae gwaith wedi ei gyflawni ar yr afon fydd yn gwella'r amgylchedd naturiol i'r pysgod. Mae'r afon yma wedi mynd o nerth i nerth dros y tymhorau diwethaf.

Ar y Seiont bu'r eog yn hwyr iawn yn ymddangos er cymaint y dŵr diddiwedd. Yn yr wythnosau diwethaf mae rhai wedi eu dal-mae eu lluniau ar ein gwefan (http://sgll.co.uk/). Wrth drafod hefo pysgotwyr eraill ymddengys bod nifer yr eogiaid yn llai na'r arfer mewn sawl afon yng Nghymru. Ar hyn o bryd mae ein haelodau'n dal wrthi yn pysgota'r estyniad i'r tymor.

Bellach mae'r byd i gyd yn sylweddoli bod Llyn Padarn wedi ei lygru dros ddegawdau. Dim ond pwysau dyfal a bygythiad cyfreithiol gan y Gymdeithas dros fwy nac ugain mlynedd sydd wedi arwain at yr ymchwiliadau diweddar. O'r diwedd cafwyd cydnabyddiaeth bod carthion Llanberis wedi difetha'r llyn .Rydym wedi codi cryn dwrw a bu'r broblem yn amlwg yn y cyfryngau lleol ac ar draws gwlad. Ond pa ateb sydd wedi ei gynnig?

Datgelwyd y penderfyniad terfynol ar 19ydd o Hydref. Bwriada Dŵr Cymru gau gwaith trin carthion Llanberis a chodi gwaith newydd, modern ym Mrynrefail. Bydd holl wastraff Llanberis yn mynd yno i'w drin.

Mae newyddion da a newyddion drwg yn y neges. Fe fydd y gwaith newydd yn trin ein carthion - a'r gweddillion, wrth gwrs yn rhedeg i'r Afon Seiont. Mae'r Awdurdodau yn ein sicrhau y bydd cyfyngiadau llym iawn ar gynnwys yr hyn sydd yn mynd i'r afon,a bod arllwysiadau o waith cyfoes, modern, effeithiol yn hollol wahanol i'r budreddi sydd wedi bod yn arllwys i'r llyn dros y blynyddoedd.

Ar y llaw arall, o'r diwedd, ar ôl hanner canrif, ni fydd carthion yn llifo i'r llyn. Y llygredd yma sydd wedi drysu natur Llyn Padarn, wedi newid ansawdd y dŵr, difetha'r pryfetach a'r pysgod ac, yn y diwedd, difa'r torgoch. Gobeithiwn y bydd diwedd ar y llygredd yn caniatau i bethau gymryd eu cwrs naturiol ac i'r Llyn a'i fywyd gwyllt ail sefydlu dros y blynyddoedd sydd i ddod. Yn sicr, dim ond gwella fedr pethau. Ar ôl yr holl ymgyrchu, efallai bod golau bach ar y gorwel pell.

Mae'r Gymdeithas hefyd ar fin dechrau cymryd rhan yng ngweithgareddau ymddiriedolaeth afonydd. Rydym wedi gwylio o bell wrth i'r mudiad ymddiredolaethau ddatblygu drwy'r wlad. Mae'r cyrff yma gyda'r gallu i ddenu arian sylweddol sydd ar gael i ddatblygu dyfroedd ac amddiffyn amgylchedd naturiol afonydd a llynnoedd, yn hybu cadwraeth a gwarchod cefn gwlad ar ein rhan. Pysgotwyr sydd yn fwyaf prysur yn y mudiadau yma ac yn elwa wrth i'r mesurau a'r gwaith arwain at welliant yn y dyfroedd, niferoedd pysgod a safon y pysgota. Yn anffodus nid ydym ni fel clwb yn ddigon mawr i'n galluogi i redeg ymddiriedolaeth ein hunain. Ond wedi trafod efo clybiau'r Glaslyn a'r Prysor/Trawsfynydd, rydym wedi holi efo Ymddiriedolaeth Afonydd Conwy a Chlwyd a oes posib ymestyn hwnnw dros yr Wyddfa i gynnwys ein dyfroedd ni a'r clybiau uchod. Wedi rhywfaint o berswâd, maent wedi cytuno, a bwriedir symud ymlaen drwy ffurfio Ymddiriedolaeth Afonydd Conwy, Clwyd a Gwynedd. Pwysleisiaf na fydd eiddo nac hawliau na chyfansoddiad y Gymdeithas yn newid o gwbl drwy gymryd y cam yma. Mae'r ymddiriedolaeth yn gorff ar wahân sydd yn gweithio ar ein rhan, a bwriedir bod rhai o'n haelodau yn cymryd rhan llawn yn eu cyfarfodydd a'u penderfyniadau a thrwy hyn sicrhau buddiant teg i ni. Bwriadwn symud ymlaen i drefnu hyn ar eich rhan,ac mae'r cyfarwyddwyr a'r pwyllgor gwaith yn sicr ei fod yn gam call a phellgyrhaeddol yn ei fanteision i sicrhau ein dyfodol. Mae'n bwysig gwybod teimladau'r aelodau yn y mater yma. Am syniad o weithgareddau a rôl ymddiriedolaethau, ewch i sbecian ar wefan y mudiad http://www.theriverstrust.org/ a dilyn eich trwyn i gael blas ar weithgareddau'r rhai sydd bellach wedi eu sefydlu ar hyd a lled y wlad.

Mae arian yn dyn ym mhob man. Mae ein haelodaeth wedi dioddef yn sgil pwysau'r sefyllfa economaidd ar wariant pob dydd, ac yn sicr gall blwyddyn o brinder eog a sefyllfa ansicr Padarn leihau ar werthiant tocynnau. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r aelodau sydd wedi cefnogi'r Gymdeithas yn ffyddlon drwy flynyddoedd llwm, ac erfyniaf arnoch i barhau i'w chefnogi dros y tymhorau sydd i ddod tra'n bod yn symud ymlaen gyda'r datblygiadau gobeithiol uchod. Mae talu aelodaeth ar ddechrau'r flwyddyn yn ein galluogi i dalu'n ffordd yn ystod y tymor heb fynd i ddyled. Yn yr un modd, os bydd aelod yn gweld rhywun dieithr yn pysgota ein dyfroedd holwch a oes ganddo docyn, ac os nad oes eglurwch bod ei angen, a ble i'w gael. Bu dipyn yn sgota'r dyfroedd eleni heb docyn, ac yn anffodus wynebau cyfarwydd, lleol oedd rhai. Os bydd mwy yn penderfynu talu cyn pysgota ni all wneud dim ond lles i'r Gymdeithas. Gobeithiwn, os daw gwellhad araf yn Llyn Padarn, sydd yn cynnal y dalgylch gyfan, a pharhad yng nghynnydd diweddar y pysgod ar y Gwyrfai a'r Llyfni, bydd eich cefnogaeth yn dwyn ffrwyth.

Diolchaf ar eich rhan i bawb sydd wedi cyfrannu at weithgareddau'r Gymdeithas yn ystod y flwyddyn, y trysorydd, y cyfarwyddwyr ac aelodau'r pwyllgor, yn ogystal â'r rhai sydd yn weithgar tu ôl i'r llenni yn clirio a chynnal y glannau a'r cychod, a threfnu tocynnau i'r siopau. Hoffwn ddiolch yn arbennig ar ddiwedd y flwyddyn i'r ysgrifennydd am ei waith yn 2012.

Ar ran y Pwyllgor a'r swyddogion hoffwn gynnig y dymuniadau gorau i chi a'ch teuluoedd dros y Nadolig a'r flwyddyn Newydd a phob hwyl gyda'r enwair yn 2013.

Dr. Robin Parry
Cadeirydd

YSWIRIANT FUW

Hoffech chi hybu:

FUW
UNDEB AMAETHWYR CYMRU

Bwyd lleol

Busnesau cefn gwlad

Economi wledig

Trwy gefnogi Yswiriant FUW?

Yswiriant car, ty neu unrhyw fusnes

Dafydd P Jones 01492 642683 Dwyrain Sir Gaernarfon

Buddsoddi yn eich cymuned

Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi ei awdurdodi a'i reoli gan Awdurdod y Gwasanaethau Ariannol, yng nghyd-destun cyfryngu yswiriant, o dan Rhif Cofrestru 308935

Eco Dolig 2012.indd 25 18/12/2012 09:42

Rhif Cyswllt Cyngor Gwynedd Cofiwch fod ffordd haws o lawer i gysylltu â Chyngor Gwynedd, e.e. mewn argyfwng neu ynglŷn â gwli lôn wedi'i chau gyda dail, neu dipio'n slei, sef ffonio 01766 771000.

Digwyddiadau dros yr Ŵyl Mae mudiadau yng Nghaeathro wedi trefnu'r canlynol i drigolion y fro a'u cyfeillion:

Dydd Mawrth, 20 Rhagfyr(Noder y newid dyddiad!) am 7:00 - Canu Carolau o amgylch y goeden Nadolig gyda Seindorf Iau Llanrug, wedyn cawl cartref a chymdeithasu

Dydd Sul, 23 Rhagfyr: am 5:30 – Dathliadau'r Nadolig yn y Capel, Caeathro

Croeso Hoffwn groesawu Gwyn a Pat Jones i'n plith ni. Maent yn trigo yn Nhyddyn Cae, Pontrug, erbyn hyn. Hefyd Siân Davies a Tudur Lewis a'u babi, Rhodd Lewis, yng Nghae Hopsyn, Rhosbach.

Newyddion y Capel. Cynhelir y cyfarfodydd canlynol dros yr Ŵyl:

Sul 23 Rhagfyr am 5:30 – **Dathliadau'r Nadolig** yng Nghapel Caeathro gyda'r Gweinidog, Y Parch Marcus Wyn Robinson

Diwrnod Nadolig. Mawrth 25 Rhagfyr am 10:00: Oedfa Cymun Fer Bore Nadolig yng Nghapel Cysegr, Bethel dan arweiniad y Gweinidog yr Ofalaeth, Y Parch Marcus Wyn Robinson.

Wedyn ym mis Ionawr:

Sul 13 Ionawr am 2:00: Oedfa croesawu'r Flwyddyn Newydd o dan arweiniad y Gweinidog, Y Parch Marcus Wyn Robinson.

Sul 27 Ionawr am 2:00: Oedfa gyda Mr Richard Lloyd Jones.

Mae'r Gymdeithas Cae Chwarae yn dra diolchgar am gefnogaeth hap-chwaraewyr Tynfa Fisol y Gymdeithas Cae Chwarae sy'n cyfrannu'n fisol ac felly yn galluogi'r Pwyllgor i drefnu'r Parti Nadolig gyda bwyd, anrheg ac adloniant ar gyfer plant oed ysgol gynradd ac yn iau, cerdyn 'Dolig a bonws bach i'r pensiynwyr, y goeden 'Dolig wedi'i goleuo a'r canu carolau gyda'r seindorf a chawl. Diolch yn fawr iawn i chi oll. [Croesawir aelodau newydd - gall pob oedolyn unigol y fro ymuno!]

Clwb y Merched Bu i griw da a niferus ddod at ei gilydd i fwynhau noson eitha gwahanol, yng nghwmni Llinos o Nefyn, oedd wedi dod â chynnyrch diddorol gyda hi, ac wedi eu gosod yn gelfydd. Wrth ei chroesawu fe fu i Marian, y llywydd, gyfeirio ati fel merch o'r pentref a rhoi croeso'n ôl iddi i'w hardal enedigol. Balch oeddym o weld fod Llinos yn cefnogi llawer o grefftwyr lleol gan arddangos a gwerthu eu nwyddau. Pleser gan Rhiannon oedd talu'r diolchiadau, oherwydd iddi weld stondin 'Mirsi' am y tro cyntaf yn Eisteddfod yr Urdd yng Nglynllifon, ac edmygu ei detholiad o grefftau yno, a dymunodd yn dda i Llinos ar ei mentergarwch yn sefydlu busnes newydd. Dros baned, cawsom ninnau gyfle i gymdeithasu a gwneud tipyn o siopa Nadolig 'run pryd. Mawr ddiolch i Iona a Llio am y lluniaeth, ac i Catrin am ei rhodd o raffl. Edrych ymlaen i'r Cinio Nadolig nesaf, yn yr Hen Lechen, Y Felinheli, nos Wener, Rhagfyr 7, ac i ymgynnull yno am 7:00 y.h., lle bydd croeso yn ein haros.

Marwolaeth Dechrau'r mis, ar ôl gwaeledd hir, bu farw Cledwyn Jones, Ysbytty. Bu o a'i ddiweddar wraig Margaret yn cadw Post olaf y pentref. Cydymdeimlwn a'i ferch, Eileen, a gweddill y teulu.

Menter Patagonia Llongyfarchiadau i Gwen Thomas, Dolgynfynnydd Isaf. Mae hi wedi'i dewis i fynd i'r Wladfa Gymreig yn ne Amerig am bythefnos er mwyn cefnogi'r Gymraeg yn yr ysgolion a'r gymuned. Hoffwn glywed am ei anturiaethau ar ôl iddi ddychwelyd adra.

Yn yr Ysbyty Ar ôl cyfnod yn yr ysbyty, gobeithiwn y bydd Eirlys Pritchard, 8 Bryn y Gof, adra ar gyfer y Nadolig.

Gohebydd Newydd Ar ôl y rhifyn hwn o'r Eco bydd Rhiannon Roberts yn ymgymryd â swydd Gohebydd Eco'r Wyddfa dros Gaeathro a Rhos-bach. Dylid anfon newyddion ati naill ai trwy e-byst ar rhiannonmai@btinternet.com neu drwy'r drws, Cefn Coed Isaf, Penrhos.

Wrth ymddeol o'r swydd mae Clive James yn awyddus i ddiolch i bawb am y newyddion a ddaeth i law dros y pymtheg mlynedd diwethaf. [Bydd Bethan Iwan yn parhau fel Dosbarthydd dros Rhos-bach a Phenrhos ac Aled Thomas dros Gaeathro.]

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB SY'N DARLLEN NEWYDDION CAEATHRO YN ECO'R WYDDFA.

BYSUS RHIWLAS

Bysus bach a mawr ar gael ar gyfer pob math o logi preifat – nosweithiau allan, partïon, tripiau ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan

(01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS

Nadolig Llawen
A Blwyddyn Newydd Dda
i holl ddarllenwyr yr Eco

Hoffwn ddiolch i'n cwsmeriaid lleol am eu cefnogaeth trwy gydol y flwyddyn!

Caffi Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail
www.caban-cyf.org caban@caban-cyf.org
01286 685 500 (caffi) 01286 685 462 (swyddfa)

caban cyf

Cynnyrch a gwasanaethau priodol ar gyfer y rhai dros 50 oed

- Yswiriant Cartref
- Yswiriant Teithio
- Larymau Personol
- Yswiriant Car
- Nwy a Thrydan
- Cynlluniau Angladdau

Am bris heb rwymedigaeth, ewch i:
Age Concern Gwynedd a Mon
Ty Seiont, Ffordd Santes Helen
Caernarfon LL55 2YD
Ffôn: **01286 678310**
(ar agor 9am–5pm Mon to Fri)

Neu ffoniwch **0800 085 3741** neu ewch i **www.ageuk.org.uk/products**

AGE Concern

age UK

Darperir yswiriant cartref, car a theithio gan Yswiriant Ageas Cyfyngedig.
Darperir Nwy a Thrydan gan E.ON Energy Solutions Cyfyngedig.
Age UK yw nod masnach Age UK (Elusen rhif 1128267). Defnyddir enw a logo Age UK o dan gytundeb trwydded rhwng Age UK ac Age UK Enterprises Limited, sef eu cangen gwasanaethau masnachol. Rhoddir yr elw net i Age UK. Age UK Enterprises Limited, Linhay House, Ashburton, Devon TQ13 7UP. ID9975 11/10 MP2430V2APR11 SL031616_11_1

Eco Dolig 2012.indd 26 18/12/2012 09:42

Chwaraeon

DIOLCH

Diolch i'r nifer fach ohonoch sy'n cysylltu gyda hanes neu stori. Rydwyf yn ceisio adlewyrchu yr holl ystod o gampau sy'n britho'r Fro. I bob un sy'n ymwneud â byd y campau ac i chwi ddarllenwyr, NADOLIG LLAWEN IAWN.



DIWEDD Y DAITH

Yn anffodus roedd hogia' sowth yn drech na Llanrug yn nhrydedd rownd Cwpan Cymru. Nid oedd y tywydd glawog, gwyntog yn ffafrio Llanrug. Roedd hogia West End, Abertawe yn gorfforol a threfnus. Roedd rhai wedi bod yn aelodau o garfan ieuenctid Abertawe. Ar y dydd roedd y gwahaniaeth safon gynghreiriol yn amlwg. Serch hynny gall hogia Eithin Duon ymfalchio yn eu rhediad eleni. Fel pob rheolwr gall Aled ddweud rŵan y gall 'ganolbwyntio ar y gynghrair' ble mae'r perfformiadau yn dda iawn.

Mae'r dorch yn pasio i Faes Padarn yn Ionawr felly yn Nhlws yr F.A. a'r gêm gartref yn erbyn Galacticos Caernarfon. Dyma gêm i'w sawru. Tybed a welir torf fel y gêm enwog yn erbyn Llechid yn y 60a'u. Dyna fuasai diwrnod i'w gofio. "Rhowch hel iddyn nhw hogia'"

NADOLIG LLAWEN
I CHWI OLL!
BARRYS GLASS
FFENESTRI • DRYSAU
Conservatori UPVC
Trwsio Unedau
DOUBLE GLAZING
Trwsio a Gosod Gwydr
(01286) 872772
Symudol- 07840 794269

E. W. Pritchard
CENTRAL GARAGE, Llanberis
Ffôn: (01286) 870202
TREFNWYR ANGLADDAU

FINE ART TRADE GUILD
ORIEL CWM
Cwm y Glo
Ffôn/Ffacs:
(01286) 872882
Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
Ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan Artistiaid
Lleol
Richard S. Humphreys

Cist Gymunedol
Awydd £1,500
tuag at eich prosiect
chwaraeon cymunedol?
Mae'r Gist Gymunedol yn
cynnig grant o hyd at £1,500
i gefnogi cynlluniau
chwaraeon a gweithgareddau
egniol newydd neu
ychwanegol yn y gymuned.
Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:
Rhian Dobson
Swyddog Datblygu Chwaraeon
rhianeleridobson@gwynedd.gov.uk
Rhif ffôn: 01758 704 057
www.gwynedd.gov.uk

GWYNANT PIERCE
Cynyrchion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol
Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG
Ffôn: (01286) 674183
(0589) 899901

Pryd i Bawb
Arlwyo at bob achlysur yn
unrhyw leoliad
Bwffe blasus o safon
• Priodas •
Cyfarfodydd busnes
• Bedydd/Parti/Te
angladd
• Basged Picnic
• Bwyd yn unig neu
gwasanaeth llawn
Cerid Mackinnon
Ffôn: 01286 673190
Symudol: 07774 925502

ECO'r Wyddfa
Cefnogwch
ein
hysbysebwyr

SAMARIAID
Mae
Llinell Gymraeg
0300 123 3011
ar gael bob nos
rhwng
7.00pm ac 11.00pm

Awydd £1,500
tuag at eich prosiect
chwaraeon cymunedol?

Mae'r Gist Gymunedol yn
cynnig grant o hyd at £1,500
i gefnogi cynlluniau
chwaraeon a gweithgareddau
egniol newydd neu
ychwanegol yn y gymuned.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch
â: Rhian Dobson
Swyddog Datblygu Chwaraeon
rhianeleridobson@gwynedd.gov.uk
Rhif ffôn: 01758 704 057
www.gwynedd.gov.uk

Eco Dolig 2012.indd 27 18/12/2012 09:43

Chwaraeon

BLWYDDYN I'W CHOFIO

Mae'n debyg y cofir 2012 fel un o flynyddoedd mawr chwaraeon ym Mhrydain. Bu'r Gemau Olympaidd a Phara-olympaidd yn llwyddiannau ysgubol. Mae pwysau aruthrol ar yr awdurdodau i gynnal gwaddol yr achlysuron yma.

Yma'n lleol rwyf beunydd yn canmol y gwirfoddolwyr a'r noddwyr parod eu cymwynas sy'n cynnal clybiau yr amrywiol gampau. Ym maes Rhedeg Mynydd mae ardal Eryri a Ras y Wyddfa a Marathon Eryri yn ddigwyddiadau sy'n denu sylw ymhell o Gymru. Braint i ni fel Papur Bro yw cloriannu yr ymdrech a'r llwyddiannau hyn.

Ym maes pêl-droed mae timau Llanrug a Llanberis yn elwa o ymdrechion pwyllgorau gweithgar. Yma maent yn elwa o nifer o chwaraewyr sydd wedi dod trwy eu system ieuenctid – hen grachen gen i, rwy'n ofni! Dyma sy'n nodweddu clwb a'i berthynas gyda'r pentref.

Trist oedd gweld cyfnod tîm oedolion Deiniolen yn dod i ben. Roedd awyrgylch arbennig ar Y Bwthyn. Cofiaf wneud sylwebaeth i Radio Cymru oddi yno a Deiniolen yn curo y mawrion o Fflint. Dyddiau'r Junior Cup a Phencampwyr. Y Dybl Dec enwog a gludai'r cefnogwyr, nid yn unig i'r ffeinals. Nid ar chwarae bach mae rhywun yn colli y fath brofiadau. Gobeithio y clywn 'C'mon Llanbabs' eto yn fuan.

Fel Deiniolen, dechreuodd Bethel ar gae Ysgol Brynrefail. Erbyn hyn mae cartref yn y pentref a chawsant hwythau gryn lwyddiant yn y tymhorau diwethaf. Dangoswyd cryn ddycnwch i ail-gychwyn wedi tymor trychinebus y llynedd. Denwyd carfan gref eleni, ond prin fu'r gemau yn ddiweddar. Mae'n anodd cadw chwaraewyr yn hapus yn ystod segurdod. Eisiau chwarae mae pob chwaraewr erioed. Tueddiad sydd i ambell un grwydro.

Mae'r Waunfawr wedi gosod eu gwreiddiau yng Nghynghrair Gwynedd erbyn hyn. Mae rhyw ymdeimlad o berthyn yn y tîm yma hefyd. Buasai ennill un o'r tlysau eleni yn dipyn o sbardun.

I'r timau i gyd, gan gynnwys y llu o dimau ieuenctid, pob llwyddiant yn 2013.

CWIS CHWARAEON Y NADOLIG

1. Record pa chwaraewr dorrodd Leonel Messi yn ddiweddar am y nifer fwyaf o goliau mewn blwyddyn?
2. Pwy oedd prif sgoriwr pwyntiau Cymru yng Nghystadleuaeth y Chwe Gwlad 2012?
3. Ym mha dref yn yr Alban y ganwyd y chwaraewr tennis Andy Murray?
4. Ar pa gwrs rasio ceffylau yr oedd Frankie Detorri yn marchogaeth pan gafodd waharddiad am ddefnyddio cyffuriau?
5. Pwy oedd yr unig chwaraewr yn nhîm Cwpan Ryder Ewrop 2012 na gollodd gêm drwy'r gystadleuaeth?
6. Pa ddwy sir fydd Morgannwg yn eu herio ar faes criced Bae Colwyn yn nhymor 2013?
7. I pa glwb pêl-droed yn yr Alban y mae'r Cymro Owain Tudur Jones yn chwarae?
8. Beth yw enw cywir 'Tarw Nefyn'?
9. Pwy yw'r 6 chwaraewr sydd wedi ennill 100 neu fwy o gapiau llawn i dîm pêl-droed Lloegr?
10. Pwy yw'r chwaraewr rygbi o Fethel sydd yn cynrychioli tîm RGC 1404?
11. Ym mha gamp mae tîm Llanrug yn herio yr Amigos, Y Gleision a'r Tîm o Walis?
12. Pwy sy'n dal y record am y nifer fwyaf o gapiau pêl-droed llawn i Gymru?
13. Mae 7 tîm rygbi Gwyddelig neu Saesnig wedi ennill Cwpan Rygbi Heineken Ewrop. Pwy?
14. Pwy fuasai timau Llanrug a Llanberis yn herio ar 'Cae Ffwt'?
15. Pam y daeth tîm Sporting Velletri i Fro'r Eco yn 2012?
16. Ym mha gêm gellir cael dau fath gwahanol – dull Harrow a dull Eton?
17. Pwy enillodd fedal gyntaf Prydain yng Ngemau Olympaidd 2012?
18. I pa gwmni rasio Fformiwla 1 fydd Lewis Hamilton yn gyrru yn 2013?
19. Pa wlad enillodd Cwpan Criced T20 y Byd yn 2012?
20. Pwy oedd cyflwynydd cyntaf y gyfres 'A Question of Sport' yn 1970?

(Ceir yr atebion ar dudalen 9.)